# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 30AIN IONAWR, 2018**

***NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10.00 y.b.**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 22/01.17)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Elin Walker Jones
Olaf Cai Larsen
Annwen Daniels
Rheinallt Puw
Sian Wyn Hughes
Dafydd Owen
Cemlyn Rees Williams
Linda Ann Jones
Peter Read

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts
Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Eitem 5)
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts (Eitemau 6 – 9)

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw faterion sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 5 - 25

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor hwn, fel rhai cywir

4 Medi 2017 (Cyfarfod Arbennig)
21 Medi 2017

(Copiau yn amgaeedig)

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD** 26 - 41
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Craig ab Iago**

I ystyried adroddiad blynyddol gan Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Gwynedd.
(Copi'n amgaeedig)

***10.30 – 11.15 y.b.**

**6. GWASANAETH IECHYD YN ARDAL BLAENAU FFESTINIOG** 42 - 63
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

I ystyried adroddiad ar yr uchod. (Copi'n amgaeedig)

***11.15 – 12.00**

**7. CYNLLUN ALLTWEN** 64 - 70
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

I dderbyn diweddariad ar gynnydd a datblygiad y cynllun uchod.
(Copi'n amgaeedig)

***12.00 – 12.20 y.p.**

**8. ADRODDIAD YMCHWILIAD GOFALWYR DI-DÂL** 71 - 81
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles ar yr uchod.
(Copi'n amgaeedig)

***12.20 – 12.40 y.p.**

**9. CEFNOGI POBL ANABL GWYNEDD** 82 - 84
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

I ystyried briff terfynol yr Ymchwiliad ac i ethol Aelodau ar gyfer yr ymchwiliad.
(Copi'n amgaeedig)

***12.40 – 12.50 y.p.**

**10. BLAEN RAGLEN CRAFFU 2018** 85

Cyflwyno, er gwybodaeth, y blaenraglen craffu, fel mae'n sefyll ar hyn o bryd.

(Copi ynghlwm)

***12.50 – 13.00 y.p.**

***Noder mai amgyfrif yw'r amseroedd.**

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL ARBENNIG 04.09.17

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Anwen J. Davies, Beth Lawton, Elfed P. Roberts ac Angela Russell.

**Hefyd yn Bresennol:** Morwenna Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Eraill a Wahoddwyd:**

Yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

Gary Doherty – Prif Weithredwr
Ffion Johnstone – Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin
Wyn Thomas – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol
Chris Rudgley – Dirprwy Reolwr Gweithredol Ardal (Gorllewinol)
Dr Siôn Jones, Ymgynghorwr Pobol Hyn
Dr Salah Elghenzai, Cyfarwyddwr Meddygol (ardal Gorllewin)
Karen Bampfield, Arweinydd Nyrsus Cymunedol (Meirionnydd)
Eirian Wynne – Swyddog Ymgysylltu
Kathryn Cummings – Swyddog Cyfathrebu

Yn cynrychioli Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog:

Mr Geraint Vaughan Jones
Dr Walt Evans
Y Cyng. Linda Ann Wyn Jones
Y Cyng. Glyn Daniels

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, Peter Read, Dewi Wyn Roberts a W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) .

Hefyd yn ymddiheuro oherwydd eu bod yn datgan buddiant personol: Y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Dafydd Owen a Rheinallt Puw.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ac yn dilyn

arweiniad gan yr Uwch Gyfreithiwr bod ganddo rwydd hynt i drafod y materion dan sylw.

**(ii)** Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones nad oedd yn medru cymryd rhan fel aelod o'r pwyllgor yn dilyn arweiniad gan y Swyddog Monitro a'i bod yn bresennol ar ran Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog.

**4. CYFLWYNIADAU - ADDASRWYDD DARPARIAETH IECHYD ARFAETHEIDG AR GYFER TRIGOLION BLAENAU FFESTINIOG**

Eglurodd y Cadeirydd bod y cyfarfod arbennig hwn wedi ei alw yn deillio o Rybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Glyn Daniels yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017 fel a ganlyn:

**'Rwyf yn cynnig bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty a thrigolion Blaenau Ffestiniog i bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac awdurdodau perthnasol er sicrhau bod cyfleusterau priodol ac angenrheidiol yn yr ysbyty newydd sy'n cael ei godi yn y dref.**

**I'r perwyl hyn, golygaf fod cyfleusterau sy'n arferol i'w canfod mewn ysbytai lleol, megis uned pelydr x, mân ddamweiniau a nifer ddigonol o welyau i gleifion preswyl. O ystyried fod Blaenau Ffestiniog y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, ac hefyd fod ymateb y mwyafrif llethol o'r trigolion mewn refferendwm diweddar yn mynnu fod y dref yn haeddu gwell triniaeth, credaf nad oes unrhyw reswm i'r Cyngor beidio cefnogi'r cynnig hwn.**

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater yn syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd."**

Croesawyd a gwahoddwyd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynglyn ag addasrwydd y ddarpariaeth iechyd arfaethedig ar gyfer trigolion Blaenau Ffestiniog a'r cylch.

**(A) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsti Cadwaladr**

(i) Nododd Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ei fod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y mater hwn ac yn yr un modd bod gan y Bwrdd Iechyd gwestiynau i'w hateb. Tra'n cydnabod bod rhywfaint o hanes i'r mater, hyderir y bydd yr adroddiad a gyflwynir yn gosod rhesymeg y Bwrdd Iechyd o ran adolygu'r gwasanaeth, goblygiadau'r adolygiad hwnnw o ran ceisio cyrraedd pwynt lle ceir ystod well o wasanaethau ar draws Gogledd Cymru a rheiny mor effeithiol a chynaliadwy a phosibl. Hefyd, noda'r adroddiad o safbwynt symud ymlaen lle mae'r Bwrdd Iechyd yn credu y bydd y Ganolfan Iechyd newydd yn eu galluogi i ddatblygu gwasanaethau newydd fel anelir ar draws Gogledd Cymru gyfan. Nid yw'r gwasanaethau newydd hyn yn seiliedig ar welyau, ond byddent yn effeithiol ac yn gynaliadwy o fewn y clinigau arfaethedig yn y Ganolfan Iechyd newydd. Un pwynt sylfaenol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ei dderbyn ydoedd eu bod wedi gwneud rhai newidiadau gan roi yr argraff y byddai rhai pethau ar waith cyn gwneud y newidiadau hynny. Roedd hyn yn gamgymeriad ar ran y Bwrdd Iechyd ond wedi dweud hynny, roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod y rhesymeg a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda mewn mannau eraill. Gobeithir y bydd pobl yn gweld y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei

ymrwymiadau a'r darlun mwy positif o symud ymlaen pan fydd y gwasanaethau newydd yn weithredol fel rhan o'r Ganolfan Iechyd.

(ii) Cyfeiriodd Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin, at y strwythur arfaethedig sef ceisio cael gofal yn agosach at gartrefi unigolion drwy greu hybiau cymunedol o fewn y cymunedau. O ran cysondeb a diogelwch i'r claf ceisir cael yr un gwasanaethau iechyd o fewn yr un amseroedd agor yn yr hybiau cymunedol ac o fewn taith 40 munud mewn cerbyd i gleifion ar draws Gogledd Cymru. Nodwyd bod gwasanaethau pelydr-x ynghyd â gwasanaethau mân-anafiadau ar gael o 9.00 a.m. tan 5.00 p.m. ddydd Llun i ddydd Gwener yn yr hybiau cymunedol. O safbwynt Blaenau Ffestiniog, bwriedir sefydlu canolfan integredig iechyd a gofal a fydd yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gofal ynghyd â'r trydydd sector. Nodwyd ymhellach y bwriedir cynnal clinigau newydd yn y Ganolfan megis y galon, ysgyfaint, ehangu gwasanaethau anableddau dysgu a gofal lliniarol.

(iii) O ran strategaeth yn y gymuned, adroddodd Dr Sion Jones, Ymgynghorwr yng ngofal yr henoed yn Ysbyty Gwynedd, ar y ffordd ymlaen i gynnig gwasanaeth mwy personol i unigoilion yn eu cartrefi. Nododd bod eiddilwch a niferoedd pobl hŷn yn cynyddu mewn cymunedau ac yn aml nid oedd mynediad i ysbyty yn ddelfrydol i rai o'r unigolion. Ceisir datblygu gwasanaeth i ymdrin ag unrhyw argyfwng yn y gymuned a medru darganfod eiddilwch yn gynnar. Cyfeirwyd at esiampl lwyddiannus o drefniadau sef Model MEC (Môn Enhanced Care) gyda thîm o arweinyddion meddygol yn cynnwys un Meddyg Teulu rhan-amser, 2 nyrs ynghyd â chynorthwyddion gofal iechyd a oedd wedi gweld oddeutu 250 o gleifion yn y gymuned dros y flwyddyn diwethaf. Hyderir y gellir ehangu'r model ar draws ardaloedd eraill yng Ngwynedd ond ei fod yn anodd oherwydd cyfyngiadau cyllidol a recriwtio.

(iv) Ychwanegodd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu achos busnes ac yn dilyn proses ymgynghori cymeradwywyd y cynllun i ddatblygu Canolfan Integredig ym Mlaenau Ffestiniog gan Lywodraeth Cymru. O ran yr argymhellion, penderfynwyd i gau gwelyau cleifion yn Ysbyty Coffa Ffestiniog a chytunwyd i agor chwe gwely ychwanegol yn Ysbyty Alltwen. Dros bedair blynedd gwelwyd nifer cyfartalog y cleifion o Flaenau Ffestiniog a dderbyniwyd bob mis i Ysbyty Alltwen rhwng 5.3 ac 8 ac sydd yn unol â'r capasiti chwe gwely ychwanegol a agorwyd. O safbwynt gofal yn y cartref darparwyd adnoddau ychwanegol sylweddol mewn nyrsio, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a chefnogaeth weinyddol. Yng nghyd-destun capasiti cartrefi nyrsio / preswyl, nodwyd bod prinder yn genedlaethol a rhaid edrych ar modelau gwahanol. Sefydlwyd tri gwely yng Nghartref Gofal Preswyl Bryn Blodau i ofal camu i fyny / i lawr ac fe ddefnyddir rhain 80% o'r amser.

'Roedd y gwasanaeth pelydr-x a'r gwasanaeth mân-anafiadau yn Ysbyty Coffa Ffestiniog yn anghynaladwy a bellach darparir gwasanaeth pelydr-x 5 diwrnod yr wythnos a bwrieidir ymestyn yr oriau agor gwasanaeth mân-anafiadau hyd at hanner nos 7 diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Alltwen.

(v) Esboniodd Karen Bampfield, Arweinydd Nyrsus Cymunedol (Meirionnydd), ar yr ochr weithredol drwy nodi bod tim o staff yn gweithredu yn ardal Blaenau Ffestiniog gydag oddeutu 166 o gleifion fel rhan o'r achosion. Derbyniodd oddeutu 34 o unigolion gofal lliniarol yn y gymuned y flwyddyn diwethaf. Nodwyd bod sgiliau'r nyrsus wedi eu uchafu i drin cleifion yn y gymuned. Pan fydd y Tim yn symud i'r Ganolfan Coffa byddent yn rhannu swyddfa gyda swddogion Gwasanaethau Cymdeithasol fel bo modd cydweithio i symud y strategaeth ymlaen.

I gloi, nododd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio symud ymlaen gydag strategaeth ar gyfer y gymuned a sicrhau gwasanaethau diogel ond drwy wneud hyn wedi gorfod lleihau y nifer o ysbytai er mwyn uwch sgilio staff.

**(B)** Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Craffu holi cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â chysondeb y ddarpariaeth ar draws Gwynedd ac a oedd tystiolaeth i gyfiawnhau hyn, nododd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd bod hyn yn anodd i'w ateb. Esboniodd bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio gosod y canolfannau Cymunedol er mwyn i bobl allu cael mynediad i gyfleusterau o fewn 40 munud o amser teithio. Mae'n anodd cymharu, ond ar yr adeg, gwnaed y penderfyniad o ran lleoliad y canolfannau cymunedol gan y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth a'r dalgylch. Nodwyd ymhellach, o ran cofnod, y dylai'r Bwrdd Iechyd feddu ar y data gweithgaredd.

(ii) Cyfeiriwyd at sylw wnaed mai dim ond 2 glaf ar gyfartaledd a fynychwyd Uned Man Anafiadau Ysbyty Alltwen a gofynnwyd faint o gleifion sydd yn mynd i Ysbyty Gwynedd Bangor. Mewn ymateb, nodwyd ar gyfartaledd bod oddeutu 5% o'r Gorllewin yn cael eu cyfeirio i Ysbyty Gwynedd. Ychwanegwyd bod Metron Ysbyty Alltwen ar hyn o bryd yn tynnu allan criteria ar gyfer ymweliadau i'r Uned Man-anafiadau ac yn edrych ar fodd i'r gwasanaeth allan o oriau gydweithio gyda'r Uned Man-anafiadau.

(iii) Gofynnwyd faint o hir ar gyfartaledd mae unigolion yn aros mewn ysbytai cymunedol. Mewn ymateb, ar gyfartaledd nodwyd mai 26.2 diwrnod yw'r arhosiad yn Ysbyty Alltwen a rhestrwyd y ffigyrau isod dros gyfnod o bedair blynedd:

| | | |
|---|---|---|
| 2013/14 | - | 29.5 |
| 2014/15 | - | 24.3 |
| 2015/16 | - | 21.3 |
| 2016/17 | - | 31.8 |

(iv) O ystyried poblogrwydd Blaenau Ffestiniog erbyn hyn gydag ymwelwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn yr ardal byddai'n synhwyrol i gael unedau pelydr-x ac mân-anafiadau ym Mlaenau.

Mewn ymateb, nodwyd ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad ynglŷn â lleoliadau'r canolfannau, ystyriwyd lefel y gweithgaredd sy'n mynd drwy'r adran fân anafiadau bryd hynny. Tra'n cydnabod bod pethau wedi datblygu ac efallai bod mwy o alw ond bod y gwasanaeth man-anafiadau ar gael yn Ysbyty Alltwen. Fodd bynnag, o ran arfer gorau cyfredol wrth ymdrin ag anafiadau pen, anafiadau soced llygaid, mae'r rhain wedi newid dros y blynyddoedd, ac felly fe'u cyfeirir at adran damwain ac argyfwng mwy. Mae model gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn nodi y byddai cleifion yn mynd i Ysbyty Alltwen ac yna ymlaen i Fangor, os oes angen.

(v) Gofynnwyd a yw trigolion ardal Ysbyty Alltwen yn cael eu hamddifadu o welyau yn yr Ysbyty o ystyried bod trigolion ardal Blaenau Ffestiniog yn cael eu cyfeirio yno? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod 6 gwely ychwanegol ar gael yn Ysbyty Alltwen ar gyfer y galw.

(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â dyfodol ysbytai cymunedol, nodwyd mai'r bwriad ydoedd cael hybiau integredig a chydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill megis y trydydd sector, a chanolbwyntio ar ofal yn y cartref.

(vii) Gofynnwyd faint o straen sydd ar Ysbyty Gwynedd yn nhermau rhyddhau gwelyau lle gwelir y gall ambell glaf fod yn mynd yn nes at gartref. Cadarnhawyd bod cydweithio gyda Ysbyty Gwynedd i dynnu cleifion allan i'r gymuned. Ychwanegwyd bod gan y Bwrdd Iechyd dîm aml-asiantaethol gwych yn gweithredu ym Mlaenau Ffestiniog.

(viii) Gofynnwyd a yw'r tai ym Mlaenau Ffestiniog yn addas ar gyfer gofal yn y cartref ac yn benodol ar gyfer rhoi gwelyau ysbyty ynddynt o ystyried maint rhai o'r tai, grisiau, a.y.b. Mewn ymateb, esboniwyd bod Cydlynwyr Rhyddhau o Ysbyty yn ymchwilio i'r hyn sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd yn fwriad i'r Bwrdd Iechyd edrych ymhellach i ddarpariaeth tai gofal ychwanegol.

(ix) Nodwyd y cyflwynwyd cais cynllunio am 26 o dai gofal ychwanegol yn Llan Ffestiniog a gafodd ei wrthod gan awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a gofynnwyd a oedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd hyn i ystyriaeth pan gaewyd Ysbyty Coffa Ffestiniog. Mewn ymateb, nodwyd na fu i'r Bwrdd Iechyd gau'r ysbyty oherwydd yr uchod.

(x) Gofynnwyd petai modd newid y penderfyniad a sefydlu Ysbyty Cymunedol ym Mlaenau Ffestiniog, beth fyddai'r effaith ar ysbytai neu wasanaethau eraill o fewn Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod lleoliadau yr hybiau cymunedol yn seiliedig ar bellteroedd teithio i unigolion dderbyn triniaethau h.y. taith o 40 munud. Nodwyd bod teithio o Flaenau Ffestiniog i Ysbyty Alltwen yn 13.5 milltir oddeutu 20 munud o deithio, gyda theithiau o Bala i Dolgellau yn fwy, Aberdaron i Bryn Beryl yn fwy ac felly byddai rhaid i'r Bwrdd Iechyd ail-fapio y pellteroedd ar draws Wynedd gyfan. Ychwanegwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael anhawster i recriwtio staff ar gyfer mwy o hybiau cymunedol na'r hyn a fwriedir sef 10. Yn ogystal, bydd y model yn galluogi gwell gofal rhagweithiol yn y cartref i gleifion a fydd yn osgoi iechyd unigolion i waethygu ac mewn rhai achosion yn osgoi gorfod mynd i ysbytai.

(xi) Cydnabuwyd nad oedd yn bosibl gofalu am bob claf yn y cartref, ac y byddai'n rhaid mewn rhai achosion i unigolion orfod mynd i ysbytai o'u cymunedau. Pe byddai claf angen gofal dwys, yna byddai'n ofynnol mynd i ysbyty. Fodd bynnag, mai'n rhesymol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu y gwasanaeth gorau hyd eithaf ei allu a bod mwy y gellir ei wneud i atal unigolion ddirywio a bod yn rhaid gwneud ymdrech i gael y nifer cywir o unedau yn y lleoliadau cywir i gwrdd a'r anghenion.

(xii) Gofynnwyd ai natur daearyddol Gwynedd oedd y broblem ac oni fyddai'n rhesymol cael mwy o ysbytai cymunedol i ymateb i'r anghenion? Mewn ymateb, cydnabuwyd bod natur ddaearyddol y sir yn creu mwy o sialens i'r Bwrdd Iechyd ond rhaid ystyried hefyd sgiliau ymarferwyr ynghyd a chloriannu yr hyn sydd ar gael yn lleol. Teimlwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi ystyried yr opsiynau gorau bosib ar gyfer y lleoliadau cywir i'r hybiau cymunedol.

Ychwanegwyd bod y nifer o dderbyniadau i Ysbyty Alltwen wedi gostwng 34% lle gwelwyd oddeutu 97 yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn 2014/15 ac 34 yn y flwyddyn diwethaf, a hyn oherwydd y gwasanaeth nyrsio cymuned sydd wedi ei gyflwyno ym Mlaenau Ffestiniog ac ar gael bedair awr ar hugain 7 diwrnod o'r wythnos a'r ffaith bod cleifion yn cael gofal yn eu cartrefi.

(xiii) Mewn ymateb i faint o fethiannau clinigol sydd wedi digwydd oherwydd bod Ysbyty Blaenau ar gau, nodwyd nad oedd dim methiant wedi ei nodi yn achos Blaenau Ffestiniog.

(xiv) Gofynnwyd sut fydd y gwasanaeth yn cymharu hefo llefydd / ardaloedd eraill o fewn Gwynedd a sut y byddir yn mesur llwyddiant y Ganolfan Coffa.

Nodwyd bod dipyn go lew o glinigau yn mynd i agor a bod rheidrwydd ar y Bwrdd Iechyd i gynhyrchu adroddiadau arfarnu i Lywodraeth Cymru ar y prosiect. Byddir hefyd drwy'r Swyddog Ymgysylltu yn derbyn adborth gan staff y Ganolfan a'r defnyddwyr ac yn ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbynnir. Ychwanegwyd y derbyniwyd llythyrau o gymeradwyaeth am y gwasanaethau sydd yna'n barod.

(xv) Gofynnwyd a oedd tystiolaeth bod pobl wedi derbyn triniaeth ers i'r Ysbyty gau wedi profi unrhyw anhawster / pryder?

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y cwestiwn yn anodd i'w ateb heb edrych ar yr oll gwynion. Fodd bynnag, nid oedd dim byd yn edrych yn wahanol nag sydd mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd. Nodwyd ymhellach bod yr un clinigau yn bodoli cyn i'r Ysbyty gau, ac oriau gwaith y nyrsus wedi ehangu, a'r ddarpariaeth uned pelydr-x a mán-anafiadau ar gael yn Ysybyty Alltwen.

(xvi) O safbwynt parch, gwasanaethau, positifrwydd, a gwerth am arian i drigolion Blaenau Ffestiniog, nododd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cael y parch mwyaf posibl i bobl y Gymuned a staff Betsi. Teimlai'n bositif pan fydd y Ganolfan newydd ar waith, yn enwedig gyda mwy o glinigau. Nododd ei fod wedi cael profiadau mewn mannau eraill lle cafodd heriau eu diwallu a gwerthfawrogai bwyntiau a wneir gan bobl. Roedd 13 o leoliadau a chymerwyd y penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd y gallai 10 ddarparu gwell gwasanaeth o fewn 40 munud o deithio i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

**(C) Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog**

(i) Cymerodd y Cynghorydd Glyn Daniels y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Craffu Gofal, ar ran Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog a thrigolion y Blaenau am gael y cyfle i gyflwyno eu tystiolaeth dros gael cyfleusterau iechyd yn ôl ym Mlaenau Ffestinog.

(ii) Ar ran Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog, tywysodd Mr Geraint Vaughan Jones, ar ffurf sleidiau, yr Aelodau at gefndir a thystiolaeth o sut y penderfynwyd i gau Ysbyty Coffa Ffestiniog. Tynnwyd sylw at y cyfrifoldeb ychwanegol sydd ar Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Llesiant a Gofal Cymdeithasol 2014 i roi ystyriaeth difrifol i'r llanast a greuwyd gan y Bwrdd Iechyd dros y 5 mlynedd diwethaf o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw.

Gwnaed penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd yn 2008 i gau Ysbyty Coffa Ffestiniog ac i adeiladu adeilad newydd a fyddai'n cynnig gwasanaeth llai effeithiol na'r hyn roedd gan drigolion Blaenau Ffestiniog a'r cylch ynghynt, a llai na'r hyn sydd yn cael ei gynnig mewn pentrefi dipyn llai na'r Blaenau a hynny o fewn Meirionnydd ei hun.

Pwysleiswyd na all trigolion Blaenau Ffestiniog anghofio'r gorffennol pan benderfynwyd i gau'r Ysbyty Coffa a hynny er mwyn arbed arian.

Aethpwyd ymlaen i esbonio cyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod i rym roedd Ysbyty Coffa Ffestiniog yn un o'r ysbytai gorau ac yn ysbyty coffa i 353 o hogiau

ifanc a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr. Yn 2012 roedd yna 12 o welyau mewn defnydd rheolaidd, staff nyrsio profiadol, practis meddygon sefydlog hefo 4 meddyg, meddygfeydd dwy/dair gwaith yr wythnos yn Llan Ffestiniog a Dolwyddelan; clinig ffisiotherapi, uned pelydr-x a oedd mewn defnydd rheolaidd gan y meddygon a'r cyfan ar gost o £800,000 y flwyddyn.

Pan bleidleisiodd y Bwrdd Iechyd yn 2013 i gau'r Ysbyty Coffa diflannodd y gwasanaethau amlinellir uchod i gyd dros nos hyd yn oed y gwasanaeth meddygon dibynadwy oedd ar gael ynghynt a hynny er gwaethaf pob protest a deiseb leol. Erbyn heddiw, nodwyd bod practis meddygol Blaenau Ffestiniog yn ddibynnol ar "locums" sydd prin yn adnabod eu cleifion, ac ambell ddiwrnod dim ond un "locum" sydd ar gael. 'Roedd yn amlwg o benderfyniad y Bwrdd Iechyd nad oedd trigolion Blaenau yn haeddu yr un gwasanaeth a threfi eraill Meirionnydd, a theimlwyd yn gryf bod anffafriaeth yn erbyn ardal Blaenau Ffestiniog.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Prif Weinidog wedi datgan yn 2012 na fyddai 'run ysbyty dan fygythiad i gau ond eto i gyd fe gynhyrchodd y Bwrdd Iechyd y strwythur arfaethedig uwchlaw yr hyn a ddywedwyd gan y Prif Weinidog.

Drwy greu yr ardaloedd llesiant yn unol á'r Ddeddf, bwriad y Bwrdd Iechyd ydoedd creu ysbyty canolbwynt yn Nolgellau, cadw a gwella Ysbyty Coffa Tywyn, adeiladu Ysbyty Alltwen i gymryd lle Ysbyty Penrhyndeudraeth, cadw Ysbyty Bryn beryl, cadw Ysbyty Gwynedd Bangor. Ond yng nghyd-destun Ucheldir Cymru, y penderfyniad ydoedd cau Ysbyty Coffa Ffestiniog a gwneud i ffwrdd a gwasanaeth Mán Anafiadau, Uned Pelydr-x, dwy feddygfa, a phwysleisiwyd wrth y Pwyllgor Craffu mai dyma yr unig ardal yng Ngwynedd sydd heb gartref nyrsio o gwbl ynddi hi.

Yn ôl yn 2012, y nod ydoedd "yr hyn sy'n bwysig yw bod pobl leol yn gwneud penderfyniadau lleol ynglyn a gofal iechyd yn lleol" ond pwysleisiwyd na fu unrhyw gytundeb arnynt yn lleol.

Cyfeiriwyd at ddeisebau arwyddwyd gan gannoedd o unigolion yn erbyn cau'r Ysbyty Coffa a oedd yn cynnwys 5 meddyg, 2 nyrs i gynrychioli staff yr Ysbyty, 4 cynghorydd sir, cadeirydd y Cyngor Tref, Ysgrifennydd Cyngor Cymuned Dolwyddelan, cadeiryddion cynghorau cymuned Trawsfynydd a Maentwrog, cadeirydd cwmni seren, Cadeiryddion Cyfeillion yr Ysbyty Coffa a'r Pwyllgor Amddiffyn, ond anwybyddwyd y deisebau gan y Bwrdd Iechyd. Cyfeirwyd at ymateb gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd i'r ddeiseb a oedd yn sarhad ar ddeallusrwydd trigolion Blaenau a'r cylch.

Yn 2015 galwyd am refferendwm gyda chanlyniad y bleidlais yn unfrydol i'w gynnal, a bu i 52% o'r etholaeth fwrw pleidlais gyda 99.6% ohonynt yn datgan o blaid ail-agor yr ysbyty coffa ym Mlaenau Ffestiniog hefo gwelyau i gleifion, uned man-anafiadau a gwasanaeth pelydr-x, ond fe anwybyddwyd hyn yn llwyr.

Cyfeiriwyd at restr o wasanaethau iechyd sydd ar gael yn Nolgellau, Tywyn a Ffestiniog a thynnwyd sylw bod ardal Blaenau yn derbyn 15 o wasanaethau yn llai na Dolgellau a 13 yn llai na Thywyn ac o ystyried bod poblogaeth Blaenau yng nghyfrifiad 2011 yn 4,875 o'i gymharau a 3,264 yn Nhywyn a 2,688 yn Nolgellau.

Tynnwyd sylw at dudalen a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Iechyd dyddiedig Gorffennaf 2017, a oedd yn rhestru hyd at 36 o wasanaethau newydd fyddai ar gael yn y Ganolfan Coffa ond prysurwyd i nodi bod 23 ohonynt ym Mlaenau Ffestiniog yn barod cyn yr ad-drefnu. Cwestiynwyd pwy fyddai'n gyfrifol am dalu am y gwasanaethau hyn.

Cyfeiriwyd at gyflwyniad y Bwrdd Iechyd yn gynharach yn ystod y cyfarfod hwn lle roeddynt yn cyfiawnhau cau Ysbyty Coffa Ffestiniog a chwestiynwyd pam y bu i'r Bwrdd Iechyd gynnal arolwg yn Ffestiniog yn unig, pam targedu trydedd dref fwyaf Gwynedd, ardal sydd wedi dioddef di-weithdra a cholli gwasanaethau. Ni chafodd arolwg ei gynnal mewn ardaloedd eraill ac felly teimlwyd yn gryf bod anffafriaeth bwriadol i'r ardal. Pwysleiswyd nad oedd y Pwyllgor Amddiffyn yn gwarafun ysbytai mewn llefydd eraill ond yn hytrach gofyn pam nad oedd Blaenau Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn haeddu'r un gwasanaethau o ystyried ei ddioddefaint.

Apeliwyd ar gael yr Ysbyty Coffa yn ól a mater bach fyddai addasu un o'r ystafelloedd yn y Ganolfan newydd i greu ward ar gyfer trigolion Ucheldir Cymru.

**(CH)** Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â thystiolaethu bod pobl Blaenau angen gwelyau ysbyty cymunedol uwchben yr hyn sydd ar gael yn Ysbyty Alltwen, nododd Dr Walt Evans, Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog, bod llawer iawn o unigolion yn Ysbyty Gwynedd yn aros am le yn Ysbyty Alltwen. Ychwanegodd nad oedd hyn yn digwydd pan oedd Ysbyty Goffa Ffestiniog yn weithredol. Yn ogystal roedd tystiolaeth bod amryw o unigolion yn cael eu hanfon i ysbytai eraill megis Dolgellau, Eryri, Bryn Beryl sydd yn golygu milltiroedd o deithio i'w teulu i'w gweld.

Yn ychwanegol cyfeiriwyd at niferoedd o unigolion o gylch Blaenau Ffestiniog a oedd mewn ysbytai / cartrefi yn Llandudno, Pentrefoelas, Llanrwst, Porthmadog, Pentrefelin ac un wedi ei hanfon, oherwydd prinder gwelyau, i Dywyn, a bod y daith mewn bws i'w theulu yn eu gwneud yn amhosib i fynd i'w gweld.

(ii) Gofynnwyd pa dystiolaeth bod ardaloedd eraill yng Ngwynedd yn derbyn gwasanaeth gwell na Blaenau.

Ymatebodd Dr Walt Evans drwy nodi bod pob tref hefo ysbytai cymunedol a bod gwir angen ysbyty yn Blaenau, gwasanaeth pelydr-x ac uned man anafiadau. Nodwyd bod y sefyllfa yn ddyrys iawn yn Blaenau gyda llawer o gwynion fel y gwelir o'r deisebau. Cyfeiriwyd at restr o'r clinigau a gynigir gan y Bwrdd Iechyd i'r Ganolfan arfaethedig, ond nad oedd y clinigau hyn yn arbennig oherwydd eu bod i fod ar gael mewn unrhyw ardal llesiant. Yn hyn o beth felly, pa fath o ardal llesiant fyddai Blaenau Ffestiniog.

Cwestiynwyd sut y gellir cynnal clinig rhiwmatoleg heb gynnal uned pelydr-x.

(iii) Gofynnwyd a oedd tystiolaeth bod unrhyw unigolyn sydd wedi derbyn gwasanaeth yn Ysbyty Alltwen yn anhapus hefo'r gwasanaeth?

Ymatebodd aelod o'r Pwyllgor Amddiffyn drwy gyfeirio at brofiad personol lle 'roedd wedi gorfod chwilio am gartref nyrsio i'w mam a phe na fyddai wedi gwneud hynny byddai ei mam wedi gorfod mynd i gartref milltiroedd i ffwrdd neu hyd yn oed yn Lloegr. Cyfeiriodd ymhellach at brofiad arall personol lle gwnaed camgymeriad yng nghofnodion y claf a phan ffoniwyd Ysbyty Gwynedd Bangor i gwyno dywedwyd mai Adran Pryderon oedd ar gael ac nid Adran Gwynion.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad o faint o lythyrau oedd heb dderbyn sylw gan y Bwrdd Iechyd, nodwyd mai cyfran fechan iawn oedd yn y pecyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal a bod sawl llythyr heb ei gydnabod na derbyn ymateb.

(v) Gofynnwyd pa bellter sy'n rhesymol i bobl deithio i ysbyty, nododd Mr Geraint Vaughan Jones y byddai'n ofynnol i bobl Dolwyddelan deithio 20 milltir i ysbyty a bod y Bwrdd Iechyd yn crybwyll taith o 40 munud sydd ddim yn berthnasol gan unrhyw Fwrdd Iechyd arall – 30 munud yw'r pellter teithio yn genedlaethol.

(vi) Gofynnwyd a ydych yn ymwybodol o unrhyw ardal sydd yn cynnig lefel o wasanaeth delfrydol?

Mewn ymateb, nodwyd bod ysbyty delfrydol, dibynadwy a dim cwynion wedi bodoli ym Mlaenau Ffestiniog. Ers cau yr ysbyty a chyfeiriwyd at lyfryn a baratowyd gyda 24 o achosion o gwynion a chopi wedi ei anfon i'r Bwrdd Iechyd ond fe'i anwybyddwyd mewn cyfarfod ym mis Mai gyda Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a'r Cyfarwyddwr Ardal Gorllewin.

Cyfeiriwyd ymhellach at broffil iechyd Blaenau Ffestiniog gan y Bwrdd Iechyd wedi ei ddyddio 5 Mehefin 2013 sef 4 mis ar ôl penderfynu cau'r ysbyty – a oedd yn datgan bod 28.5% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi sef yr ail gyfran uchaf yng Ngwynedd; bod cyfradd derbyniad i'r ysbyty ar gyfer unigolion dros 75 yn uwch na Gwynedd, Gogledd Cymru a Chymru ac eto roedd y Bwrdd Iechyd yn penderfynu cau ysbytai.

(vii) Cyn terfynu, dyfynodd Dr Walt Evans at ddatganiad y Bwrdd Iechyd a oedd yn nodi "Blaenau Ffestiniog was not designated as a hub because analysis of the admissions and use of the hospital showed that the catchment care was largely confined to Blaenau Ffestiniog itself with a low level of admission from the west and little activity from the east". Mewn ymateb i hyn gwnaed sylw bod Blaenau Ffestiniog yn dref gyda phoblogaeth o oddeutu 5,000. Arferai weithio mewn practis meddygon a oedd yn gyfrifol am y cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty goffa yn ogystal â chleifion o Ddolwyddelan. Tynnwyd sylw pellach bod meddygfa arall ym Mhenrhyndeudraeth gyda'r meddygon hynny yn mynychu Ysbyty Bronygarth, Penrhyndeudraeth. Roedd yn amlwg bod lefel uchel o boblogaeth Blaenau yn defnyddio'r ysbyty ac felly yn gwbl amlwg bod angen yr ysbyty yna.

Cyfeirwyd ymhellach at lythyrau gan gyrff proffesiynol eraill yn gwrthwynebu'r newidiadau fel a ganlyn:

- llythyr gan Bwyllgor Lleol Meddygol (Ionawr 2013) a oedd yn datgan " we reject any of the current proposals to the closure of beds in North Wales, without prior thought regarding the impact of such change. There has been no convincing argument put forward that such closure will improve patient care. It seems to be proposed as clearly a cost cutting exercise".
- llythyr gan y Pwyllgor Deisebau (Mawrth 2017) a oedd yn datgan "We appreciate the rural nature of the area, and transport difficulty experienced especially by the elderly in reaching NHS sites, We also note that there is no registered nursing homes in the area and the care home that has been used as a stepped down facility does not have the capability for such a role. Inpatients facilities would provide this sevice. North Wales Local Medical Committee would fully endorse and support the campaign to alter the curent developments to include the facilities currently being withdrawn. Also support the re-introduction of those withdrawn services as soon as possible to maintain service provision close to home as the stated policy of the Welsh Government".

Gwnaed cais i anfon y llythyrau uchod i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

(viii) Mewn ymateb i ymholiad pa un o'r gwasanaethau y dymunir weld yn ól, nodwyd bwysigrwydd i gael gwelyau preswyl yn ôl ym Mlaenau Ffestiniog ac yna byddai'r gwasanaeth man-anafiadau yn dod yn ei sgil.

**(D)** Ymatebodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd i'r cwestiynau a sylwadau uchod fel a ganlyn:

(i) O ran y broses o ble y dylai'r canolbwyntiau fod, nid maint y boblogaeth a ystyriwyd ar yr adeg ond cyfuniad o faint y boblogaeth a'r dalgylch a oedd yn ei ddefnyddio. Oherwydd pe bai ardal yn cael ei defnyddio mewn dalgylch ehangach, byddai gennych lai o unedau oherwydd bod pobl eisoes yn teithio yno. Gwerthfawrogir y rhesymeg yng nghyswllt Blaenau bod mwy o bobl o'r ardal leol yn defnyddio'r ysbyty, ond os edrychir ar leihau'r canolbwynt, nid yw'r rhesymeg o reidrwydd yn gweithio.

(ii) O ran y rhesymeg dros y newid, dywedodd y Prif Weithredwr na ellir cynnal sgiliau ac effeithiolrwydd, denu staff os ydynt dim ond yn trin ychydig o gleifion a sesiynau hanner diwrnod.

(iii) Yn bersonol, nid oedd gan y Prif Weithredwr unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cymhelliant wedi'i godi fel anffafriaeth. Roedd yna resymeg, ac nad oedd wedi gweld tystiolaeth bod cymhelliant o anffafriaeth tuag at drigolion Blaenau Ffestiniog ond yn hytrach roedd wedi gweld tystiolaeth pam y gwnaed y newid ac iddo ef roedd yn edrych bod unigolion o fewn y Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd a phroses resymegol mor dda ag y gallent o gofio bod lleihau nifer yr hybiau yn mynd i fod yn anodd ac yn sicr, byddai'n anodd esbonio i boblogaeth na fyddai'r ddarpariaeth ar gael yn y dyfodol. Ni chredir bod y broses wedi ei wneud oherwydd problem ariannol oherwydd bod mwyafrif o Fyrddau Iechyd mewn diffyg ar draws y GIG gyfan yng Nghymru a Lloegr.

(iv) O ran pobl, mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno, bod her o ran gwelyau nyrsio a phreswyl ond mae yna broblem ymhobman. Nid yw'r ffaith nad oes gwelyau, yn golygu y dylai pobl aros mewn gwely GIG, a rhaid cydweithio i gael yr holl welyau gwahanol i ymateb i anghenion.

(v) Ni allai'r Prif Weithredwr ymateb ynglyn a'r sefyllfa gyda thai gofal ychwanegol.

(vi) O ran cwynion, mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod mwy o bobl yn debygol o ffonio adran pryderon yn hytrach nag adran gwynion. Serch hynny mae gan y Bwrdd Iechyd adran gwynion ac maent yn delio ag ystod eang o enghreifftiau o ran cwynion ac achosion difrifol.

(vii) O ran diffyg gohebu, cydnabuwyd bod hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro amdano. Yn yr un modd mae llawer o ohebiaeth, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ail-ddatgan nifer o bethau ac mae wedi ceisio egluro'r broses a'r cymhelliant ond mae'n anodd profi cymhelliant neu cyfiawnhau yr hyn mae pobl yn gredu yw'r cymhelliant.

(viii) O ran bod mewn mesurau arbennig, roedd y Prif Weithredwr o'r farn nad oedd gan y Bwrdd Iechyd gysylltiad / berthynas ac ymddiriedaeth y boblogaeth yn y ffordd y dylent fod wedi ei gael. Mae'n rhywbeth y maent wedi ceisio gwella, a phe bai'r Bwrdd Iechyd yn mynd yn ôl mewn amser o ran ymgysylltu, credir y byddai wedi bod yn wahanol.

(ix) Mewn ymateb i'r llythyr ychwanegol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Meddygaeth Lleol, roedd y Prif Weithredwr wedi cael sawl cyfarfod ond nid oedd y mater hwn wedi bod ar yr agenda. Fodd bynnag, cymaint ag y byddai'n wych cael 20 canolbwynt, yr her ydoedd denu meddygon teulu i swyddi.

**(DD)** Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymysg Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal yn unig, amlygwyd y sylwadau canlynol:

(i) Pryder ynglyn ag anawsterau teithio i Ysbyty Alltwen i gleifion a theuluoedd

(ii) O'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Amddiffyn bod angen i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr adolygu'r materion canlynol:

- Diffyg ymgynghori a chyfathrebu gyda thrigolion lleol a chael ffeithiau cywir oherwydd bod gwersi i'w dysgu o'r adolygiad diwethaf
- Poblogrwydd gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth ym Mlaenau Ffestiniog a'r posiblrwydd felly o gynnydd am wasanaethau pelydr-x a mán anafiadau
- Cynnal adolygiad arall annibynnol gan bod yr un diwethaf bellach yn hanesyddol ac felly bod cyfle euraidd i newid y penderfyniad i gael gwelyau preswyl i gleifion yn ól / uned peldyr-x a gwasanaeth man-anafiadau sydd ei wir angen ym Mlaenau Ffestiniog
- Anawsterau o safbwynt gofal cartref i gleifion ym Mlaenau Ffestiniog oherwydd bod llawer o'r tai yn anaddas i fedru cymryd gwelyau ysbyty
- Ystyried darpariaeth tai gofal ychwanegol

(iii) Tra'n cydymdeimlo gyda thrigolion Blaenau Ffestiniog o golli adnodd teimlwyd rhaid bod yn realistig a bod y gwasanaeth yn gynaliadwy, diogel ac 'run fath i weddill y Sir.

(iv) Rhaid cymryd i ystyriaeth o'r 10 canolfannau gwasanaeth a weithredir bod 3 ohonynt yn Wynedd sef 30% ac efallai y byddai dadlau am bedwerydd i'w lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yn anodd

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod:

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:

- tra'n derbyn y sylwadau uchod, y byddai modd gofyn i'r Bwrdd Iechyd monitro a chasglu tystiolaeth yn rheolaidd i weld pa effaith mae'r newidiadau yn gael ar drigolion Blaenau Ffestiniog er ystyriaeth pellach gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar ôl i'r Ganolfan Goffa agor ym mis Hydref eleni. Drwy wneud adolygiad byddai

modd cymharu'r gwasanaeth yn ardal Blaenau Ffestiniog o'i gymharu a gweddill y Sir.

- O safbwynt diffyg recriwtio staff, cydnabuwyd bod anawsterau yn Wynedd ac yn benodol ardaloedd gwledig ac y byddai'n ddefnyddiol comisiynu darn o waith ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio cyfarch y broblem

Nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

- bod rhai pryderon wedi eu lleisio yn y gorffennol ynglyn a gwasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus o arfordir Meirionnydd a pha mor hwylus ydoedd cyrraedd Ysbyty Alltwen ac fe wnaed arolwg bryd hynny. Yn deillio o hyn fe wnaed addasiadau i amserlenni bysiau a sicrhau bod bysiau yn troi fyny i Ysbyty Alltwen ond efallai ei fod yn amserol i ofyn i'r Aelod Cabinet Gofal ac Aelod Cabinet Amgylchedd i gomisiynu gwaith er mwyn ail-edrych ar y ddarpariaeth.
- O safbwynt tai gofal ychwanegol bod symposiwm i'w gynnal ar 13 Hydref gyda Adran Tai y Cyngor / Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Cynefin i drafod y mater hwn ac y byddai'n fuddiol rhoi gwahoddiad i gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fod yn rhan o'r trafodaethau yn ogystal
- Er gwybodaeth, bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn comisiynu gwaith ar safleoedd preswyl / nyrsio a bod Cartref Preswyl Bryn Blodau, Llan Ffestiniog, yn un o'r catrefi o dan ystyriaeth

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch i'r Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog am eu cyflwyniadau.**

**(b) Cytuno ar yr argymhellion isod, ond bod union eiriad terfynol yr argymhellion yn cael ei gyflwyno ar gyfer cytundeb terfynol y Pwyllgor Craffu Gofal yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017:**

**(i) Bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i rannu'r holl wybodaeth gefndir fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol i newid darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.**

**(ii) Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol pe byddai'r gwaith yma'n cael ei wneud gan asiantaeth annibynnol neu o leiaf yn cael ei gadarnhau gan asiantaeth annibynnol a bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal ymhen amser rhesymol.**

**(iii) Yn deillio o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog am ddiffyg ymateb i ddeisebau a gohebiaeth yn y gorffennol, bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddiffygion ymgysylltu ac ymgynghori yn y gorffennol er mwyn gwella'u trefniadau ar gyfer y dyfodol. Anogir y Bwrdd Iechyd i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau Ffestiniog mewn perthynas â darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol.**

**(iv) Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Aelod Cabinet Gofal gomisiynu asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen. Tra byddai'r**

**flaenoriaeth i'w roi ar y dalgylch yma, wedi ei gwblhau, gellir ystyried os oes budd i gynnal asesiadau tebyg mewn ardaloedd eraill.**

**(v) Bod yr angen am gartrefi addas ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cael ei wyntyllu'n llawn ar y cyd gan yr Aelod Cabinet Gofal, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Bwrdd Iechyd ynghyd â Phartneriaeth Tai Gwynedd.**

**(vi) Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd i gydweithio'n agos a chymryd camau ymarferol priodol i recriwtio staff gofal ac iechyd fel bod timau llawn yn eu lle i gynnal gwasanaethau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ar draws y Sir.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.10 p.m.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 21.09.17

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Anwen J. Davies, Alan Jones Evans, Sian Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P. Roberts ac Angela Russell.

**Swyddogion:** Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant),Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn Bresennol:**

Ar gyfer Eitem 4 / 5 isod:

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Arwel Owen, Uwch Reolwr Tai a Llesiant
Carys Fon Williams, Rheolwr Tai - Cyflenwad a Gorfodaeth
Susan Griffith, Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol

**Ymddiheuriadau:** Morwenna Edwards (Cyfarfwyddwr Corfforaethol)

**Croesawyd y Cynghorydd Cai Larsen i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu Gofal fel olynydd i Cynghorydd Selwyn Griffiths, a oedd wedi rhoi ei sedd i fyny ar y Pwyllgor oherwydd pwysau gwaith. Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Selwyn Griffiths am ei gefnogaeth a'i gyfraniad i waith y Pwyllgor Craffu hwn ynghyd a'i ymroddiad fel Pencampwr Pobl Hyn dros y blynyddoedd diwethaf.**

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Sian Hughes - oherwydd ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Elin Walker Jones – oherwydd ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Dafydd Owen – oherwydd bod ei ferch yn gyflogedig fel nyrs i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Cynghorydd Rheinallt Puw – oherwydd ei fod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

‘Roedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau sy’n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog, gan nodi bod ei ferch yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

‘Roedd yr aelod o’r farn nad oedd yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones nad oedd yn datgan buddiant personol y tro hwn yn Eitem 7 – Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog oherwydd ei bod wedi gwneud cam gyda hi ei hun a phobl Blaenau Ffestiniog yng nghyfarfod arbennig o’r Pwyllgor Craffu hwn a gynhaliwyd 4 Medi 2017.

## 2. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017, fel rhai cywir.

## 4. DIGARTREFEDD

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar ddigartrefedd yng Ngwynedd.

(b) Gosododd yr Uwch Reolwr Tai a Llesiant gefndir o’r maes gan nodi ei fod yn un o gyfrifoldebau statudol y Cyngor sydd wedi eu hamlinellu yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Croesawyd newidiadau i’r ddeddfwriaeth digartrefedd a ddaeth i rym a oedd yn caniatáu achosion fod yn agored am gyfnod llawer hirach. Fodd bynnag roedd mwy o faich ar swyddogion ac er derbyniwyd rhywfaint o arian grant trosiannol roedd yn dod i ben 31 Mawrth 2018 a’r Llywodraeth heb ymrwymo i unrhyw grantiau pellach ar ôl hynny. Pwysleislwyd na fyddai’r gwasanaeth wedi gallu ymdopi heb yr arian trosiannol yn sgil y newidiadau na chael cymaint o lwyddiannau atal digartrefedd. Yn ogystal, nodwyd bod newidiadau ar y gorwel yn y drefn budd-dal a fyddai’n gosod baich ar y gwasanaeth ac yn dilyn gwaith a gomisiynwyd cyfeiriwyd at y prif ganfyddiadau o’r ymchwil hwn. Roedd y gwasanaeth yn wynebu sawl her drwy newidiadau deddfwriaethol a budd-daliadau ac wedi adnabod bod y galw wedi cynyddu a’r rhagolwg y bydd yn parhau i dyfu. Roedd yn hanfodol ystyried sut y byddai’r gwasanaeth yn ymateb er mwyn sicrhau cynaladwyedd a’r gallu i reoli gwariant i’r dyfodol.

(ch) Ar nodyn positif, nodwyd yn 2015/16 bod Gwynedd y gorau yng Nghymru o safbwynt canran a lwyddwyd i atal digartrefdd ond bydd yn gostwng eleni oherwydd colled mewn un aelod o staff.

(d) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn:

(i) Nad oedd cynnydd yn y nifer o bobl a gyfeiriwyd i lety gwely a brecwast ond eu bod wedi aros yno am gyfnod hirach. Serch hynny, roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i'w cynnal o fewn y gyllideb. Sicrhawyd bod y gwasanaeth yn ceisio osgoi rhoi teuluoedd gyda phlant mewn llety gwely a brecwast. Ceisir ar bob achlysur gadw unigolion lle maent drwy negydu gyda landlordiaid. Drwy godi treth cyngor ar ail-gartrefi hyderir y gellir ail-fuddsoddi'r arian yn y maes hwn ar gyfer cyflenwi anghenion yr unigolion.

(ii) Gofynnwyd i'r Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol anfon gwybodaeth i'r Rheolwr Aelodau fel a ganlyn:

- Faint o bobl a gyfeirir i lety gwêly a brecwast
- A ydynt yn unigolion / teuluoedd / pobl ifanc / gwryw / benyw
- Costau ar gyfer yr uchod

(iii) O safbwynt tai a lesir gan landlordiaid preifat, telir rhent ar yr un raddfa â lwfans tai lleol.

(iv) Bod yr achosion yn rhai ar draws y Sir sy'n cynnwys trefi a phentrefi gwledig.

(v) O safbwynt sut mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y newidiadau yn y system budd-daliadau, nodwyd bod y gwasanaeth yn :

- ceisio sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r newidiadau
- sicrhau bod datblygiadau eiddo yn addas
- cydweithio gyda'r Uned Tai Gwag, a'r sector tai preifat
- rhoi cyngor i bobl

(vi) Yn wyneb y ffaith bod cynnydd yn yr achosion, nodwyd bod pwysau ychwanegol ar y staff i ganfod llety i unigolion yn enwedig o ystyried mai stoc bychan o dai sydd ar gael ac amserlen penodol ar gyfer cyflawni'r achosion. Nodwyd ymhellach bod y cynnydd mwyaf mewn achosion gan bobl sengl.

(vii) Sicrhawyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio'n agos gyda carchardai, Gwasanaeth Prawf, Cymdeithasau Tai ond bod ychydig mwy o waith i'w gyflawni i roi strwythur mwy cadarn yn ei le ar gyfer cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd.

(viii) Bod oddeutu 95% o'r achosion yn rhai gan bobl Gwynedd ac nid o du allan i'r Sir.

(ix) Yn nghyd-destun pobl ifanc 16 oed sydd yn derbyn budd-daliadau, nodwyd nad oedd y ganran o achosion yn uchel iawn a bod cyfrifoldeb penodol i gydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd hefyd bod cydweithrediad cadarn gyda GISDA.

(dd) Yn ystod y drafodaeth ynglyn â chynigion i gyfarch pryderon y Gwasanaeth am yr heriau sylweddol i ddarparu llety i bobl digartref yng Ngwynedd i'r dyfodol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- A fyddai'n gost effeithiol i'r Cyngor edrych ar adeiladau ei hun a'u haddasu ar gyfer llety digartrefedd
- Ymchwilio i adeiladu ar diroedd fyddai'n dod yn rhydd a chydweithio gyda Chymdeithasau Tai

Mewn ymateb i'r uchod eglurwyd bod trafodaethau yn digwydd gyda Chymdeithasau Tai ond yr anhawster a ragwelir gyda chynlluniau adeiladu tai fyddai'r amserlen o safbwynt i'r tai fod yn barod, a nifer fychan o dai sydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nad oedd y broblem o ddiffyg darpariaeth yn unigryw i Wynedd. Bwriedir cyflwyno adroddiad i Cabinet y Cyngor yn tynnu sylw at yr elfennau ariannol a thra'n derbyn bod newidiadau ar y gweill i'r dyfodol rhaid ceisio bod yn rhagweithiol ag sy'n bosibl.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi, diolch am yr adroddiad a chydnabod bod y gwasanaeth yn wynebu pwysau ychwanegol yn sgil newid deddfwriaethol a newid yn y drefn budd-dal.**

**(b) Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfleu dymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i sefydlu strwythur cadarn a chydweithio cydrhwng y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysol Betsi Cadwaladr ar gyfer pobl gydag anghenion uchel sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai i'r gymuned lle mae adnoddau llety a chefnogaeth wedi diflannu bellach.**

**(c) Ymchwilio i'r posibilrwydd o fedru cael mwy o dai addas ar gyfer anghenion pobl digartref megis:**

- **Ystyried eiddo ym meddiant y Cyngor i'w addasu yn lety**
- **Adeiladu tai o'r newydd ar diroedd sy'n dod yn rhydd**

## 5. TAI GWAG

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar dai gwag yng Ngwynedd a oedd yn cyfeirio at nifer o fentrau o gymorth i berchnogion tai i wneud y gorau o'u heiddo.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Tai wedi llwyddo i ddod a 455 o dai yn nôl i ddefnydd ac yn sgil hyn wedi llwyddo i gartrefu 915 o bobl Gwynedd ac sydd wedi galluogi unigolion i aros yn eu cynefinoedd.

Cafwyd blas gweladwy, ar ffurf sleidiau, o rai o'r tai problemus yn nhrefi / pentrefi Trawsfynydd, Maentwrog, Llan Ffestiniog, Penygroes, Bryncrug, Dolgellau, Caernarfon, Llanbedr, Bangor, Nefyn, Llandwrog a Thywyn.

O safbwynt parhad a dyfodol i'r arian sydd ar gael, nodwyd bod y Cyngor o ran rhaglen cyfalaf wedi bod yn buddsoddi ac yn denu arian o ffynhonellau eraill. Hyderir y gellir ail-fuddsoddi arian ychwanegol a ddaw drwy'r cynnydd yn nhreth Cyngor ar ail-gartrefi at ddefnydd dibenion dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd.

Amlygwyd y prif bwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Gofynnwyd a fyddai modd dwyn achos gorfodaeth gan gyfeirio yn benodol at dy yn Llan Ffestiniog a oedd mewn cyflwr truenus ers blynyddoedd lawer ac wedi achosi cryn boendod i gymdogion cyfagos.

(ii) Mewn ymateb, amlinellodd y Rheolwr Tai – Cyflenwad a Gorfodaeth y pwerau sydd mewn grym i'r Cyngor, gan nodi bod modd dwyn achos gorfodaeth ar berchennog eiddo os yw'r eiddo yn effeithio ar strwythur tŷ drws nesaf. Yn yr achos penodol hwn nid

oedd yn creu effaith strwythurol ar y ty cyfagos. Nodwyd ymhellach bod trafodaethau ar y ty dan sylw yn mynd rhagddynt ers blynyddoedd lawer gyda swyddogion awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac anogwyd yr Aelod lleol i drafod y mater ymhellach gyda swyddogion y Parc oherwydd nad oedd gan yr Uned Dai bwerau i ddatrys y mater.

O safbwynt buddsoddiadau i berchnogion tai, nodwyd nad oedd yn ofynnol iddynt ymgymryd â phrawf modd, ac nad oedd y buddsoddiad ar gyfer prynu tai, ond yn hytrach gwneud gwelliannau a dod a thai yn ôl i ddefnydd. Nodwyd ymhellach y gallai prawf modd arwain at sefyllfa a fyddai'n arafu y gwaith o ddod a thai gwag yn ôl i ddefnydd gan bod landlordiaid yn gwneud buddsoddiad eithaf sylweddol eu hunain mewn costau adnewyddu. Fe fyddai'r ty gwag yn rhan o gynllun lesu am gyfnod o 5 mlynedd, neu ar gael i bobl oddi ar restr aros y Cyngor neu gleientau Gwasanaethau Cymdeithasol.

(iii) Gofynnwyd beth oedd y targedau a sut y byddir yn mesur llwyddiant? Gwnaed sylw pellach bod y llogau oddeutu 8 / 9 % yn 2008 a oedd yn bolisi ffafriol ar y pryd ond a oedd y ffigyrau wedi gostwng?

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Tai – Cyflenwad a Gorfodaeth y gweinyddir dau fath o fenthyciad – un mewnol a'r llall ar ran Llywodraeth Cymru. 'Roedd dipyn o alw am y benthyciad ac roedd y gwasanaeth wedi ei newid yn ddiweddar gyda'r amser talu yn ôl wedi ei ymestyn. Cadarnhawyd bod y cynllun wedi ei lefelu allan oherwydd bod llogau wedi gostwng.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Tai, pan y bu i'r cynllun gychwyn llwyddwyd i ddod ag oddeutu 10 ty y flwyddyn yn ôl i ddefnydd ond erbyn hyn bod yr allbynnau wedi cynyddu ond yr arian wedi aros 'run fath.

(iv) Mewn ymateb i faint ragwelir o arian ddaw yn ôl yn deillio o'r premiwm treth Cyngor ar ail gartrefi, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ei bod yn anodd rhagweld beth fyddai yr incwm ychwanegol ond y byddai ef a'r Gwasanaeth Tai yn cyflwyno gwybodaeth i ystyriaeth yr Aelod Cabinet i gefnogi ail-fuddsoddi ar gyfer dibenion tai gwag. Fodd bynnag, nododd rhaid bod yn realistig o ystyried bod pob gwasanaeth o'r Cyngor yn wynebu arbedion a thoriadau.

(v) O safbwynt y ffi gweinyddol, nodwyd mai'r unigolyn sydd yn cael y benthyciad sydd yn ei dalu yntai ymlaen llaw neu ar y benthyciad a'i fod yn cael ei ail-gylchu ar gyfer mwy o fuddsoddi.

(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â rhesymau pam bod cyflwr tai gwag yn waeth yng Ngwynedd, nododd y Rheolwr Tai – Cyflenwad a Gorfodaeth y bu i'r Gwasanaeth greu holiadur oddeutu 9 mlynedd yn ôl a derbyniwyd nifer o ymatebion a rhesymau megis bod pobl wedi etifeddu tai, wedi eu cadw o ran teimladrwydd a'u bod wedi dirywio mewn cyflwr; eraill wedi prynu tai ac ddim digon o arian i'w hatgyweirio i gyflwr addas. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Tai a Llesiant bod nifer o dai yng Ngwynedd wedi eu hadeiladu cyn 1919 gyda'r tai hynny wedi dirywio mewn cymunedau trefi diwydiant llechi, a'r ffactor arall ydoedd diboblogi mewn rhai ardaloedd o Wynedd.

(vii) O ystyried bod lefel incwm cyfartalog yn isel mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, gofynnwyd pam na all y Cyngor adeiladu tai a gweithreu cynllun rhentu i brynu. Byddai modd wedyn i'r Cyngor dderbyn rhent a threth Cyngor ac yn sgil hyn yn rhoi siawns i bobl ifanc fedru byw yn lleol.

Mewn ymateb, eglurwyd bod yn bosibl gweithredu'r uchod a'r gwasanaeth wedi trafod gyda chymdeithas dai (Cynllun Tai Lleol Gwynedd) ar gyfer datblygu safleoedd yng

Ngwynedd (Waunfawr, Penygroes, Llanllyfni, Bethesda, Llanuwchllyn). Hefyd, bod y llywodraeth yn gweithredu cynllun prynu lle mae modd prynu canran o'r ty lle gall unigolion fod yn berchen ar rhwng 60/70% ac yn rhentu'r gweddill. Byddai'n rhaid i'r Cyngor fuddsoddi ar raddfa enfawr ond ar hyn o bryd nid oedd yr adnoddau ar gael.

(viii) Gofynnwyd a oedd methodoleg o adnabod tai gwag ac efallai cyfle i gael sustem mwy trylwyr gyda'r Adran Gynllunio yn chwarae rôl yn benodol ar gyfer dod a siopau gwag yn ôl i ddefnydd.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod rôl i'r Adran Gynllunio gyfrannu ond nid i arwain ac y dylid sicrhau bod y drefn gynllunio / gwasanaeth tai yn gweithio ochr yn ochr.

(ix) Nodwyd nad oedd rhestr ar gael o dai gwag i'w rannu gyda Chynghorau Cymuned / Tref yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ond derbyniwyd caniatâd i rannu'r rhestr hefo Aelodau etholedig a gwerthfawrogir unrhyw wybodaeth o dai gwag o fewn eu wardiau nad ydynt ar y rhestr.

I gloi, nododd Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ei bod yn amlwg bod angen mwy o dai i osgoi digartrefedd a bod angen parhau â'r gwaith gyda'r 1164 o dai gwag. Nodwyd mai swm o arian cyfyng iawn sydd ar gael a rhaid bod yn ofalus a'i ddefnyddio i ymateb i anghenion.

Cynigiwyd, eilwyd a phleidleiswyd yn unfrydol i gefnogi bod cyfran o'r arian ychwanegol a ddaw o gynllun treth Cyngor ail gratrefi yn cael ei ail-fuddsoddi i'r gwasanaeth tai gwag ar gyfer y stoc tai.

Awgrymwyd ymhellch bod angen rheolaeth ar geisiadau drwy ystyried cynnal prawf modd ar unigolion sydd yn gwneud ceisiadau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant gyfleu cymeradwyaeth a chefnogaeth y Pwyllgor Craffu Gofal bod unrhyw arian ychwanegol a ddaw o'r premiwm treth cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag yn cael ei ail-fuddsoddi i'r Gwasanaeth Tai Gwag at ddibenion dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd.**

**(c) Gofyn i'r Adran ystyried edrych ar fanylion banc ymgeiswyr pan yn cyflwyno ceisiadau.**

**(ch) Bod y Gwasanaeth yn cyflwyno rhestr i Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn o dai gwag yng Ngwynedd fel eu bod yn gallu cadw golwg yn lleol a'i ddiweddaru fel bo angen.**

## 6. DARPARIAETH IECHYD YM MLAENAU FFESTINIOG

Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn cynnwys chwe argymhelliad yn deillio o drafodaeth ar y mater uchod yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017.

Eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad ydoedd cadarnhau geiriad terfynol yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd a Phrif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er gweithrediad.

Roedd gwahaniaeth barn ymysg Aelodau ynglŷn â geiriad cymal (ii) o'r argymhellion ac fe gyniwyd ac eilwyd i ddiddymu'r geiriau "amser rhesymol" a'i ddiwygio fel a ganlyn:

"bod y Pwyllgor yn gofyn am adroddiad ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog gan asiantaeth annibynnol yn syth, i'w gyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal.

Bod y Pwyllgor Craffu'n galw ar y Bwrdd Iechyd i fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny.

Cadarnhawyd bod gweddill yr argymhellion sef (i), (iii), (iv), (v), a (vi) yn dderbyniol.

O safbwynt darparu adroddiad annibynnol fel awgrymir uchod, nodwyd y byddai'r Cyngor yn medru cynnig enwau ymgynghorwyr arbenigol allanol i gyflawni'n gwaith.

Nodwyd nad oedd Cyngor Iechyd Cymuned yn hapus nad oedd cynrychiolydd wedi derbyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal Arbennig ar gyfer y drafodaeth.

**Penderfynwyd: Cyfleu yr argymhellion terfynol isod i Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phrif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsti Cadwaladr:**

**(i) Bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i rannu'r holl wybodaeth gefndir fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol i newid darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.**

**(ii) Bod y Pwyllgor yn gofyn am adroddiad ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog gan asiantaeth annibynnol yn syth, i'w gyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal. Bod y Pwyllgor yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny.**

**(iii) Yn deillio o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog am ddiffyg ymateb i ddeisebau a gohebiaeth yn y gorffennol, bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddiffygion ymgysylltu ac ymgynghori yn y gorffennol er mwyn gwella'u trefniadau ar gyfer y dyfodol. Anogir y Bwrdd Iechyd i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau Ffestiniog mewn perthynas â darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol.**

**(iv) Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Aelod Cabinet Gofal gomisiynu asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen. Tra byddai'r flaenoriaeth i'w roi ar y dalgylch yma, wedi ei gwblhau, gellir ystyried os oes budd i gynnal asesiadau tebyg mewn ardaloedd eraill.**

**(v) Bod yr angen am gartrefi addas ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cael ei wyntyllu'n llawn ar y cyd gan yr Aelod Cabinet Gofal, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Bwrdd Iechyd ynghyd â Phartneriaeth Tai Gwynedd.**

**(vi)** **Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd i gydweithio'n agos a chymryd camau ymarferol priodol i recriwtio staff gofal ac iechyd fel bod timau llawn yn eu lle i gynnal gwasanaethau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ar draws y Sir.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.40 p.m.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL (2016/17) CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG) I GYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer** | Trafodaeth |
| **Dyddiad** | 30 Ionawr 2018 |
| **Awdur** | Ffrancon Williams, Prif Weithredwr |
| **Pwrpas** | I gyflwyno adroddiad blynyddol CCG i Bwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd |
| **Goblygiadau Ariannol** | Dim yn berthnasol. |
| **Rheoli Risg** | Isel |
| **Atodiadau** | Dim |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'n ofyniad yn y Cytundeb Trosglwyddo, am gyfnod o saith mlynedd o'r dyddiad trosglwyddo, bod CCG yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cygor yn nodi sut y mae wedi rhoi'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig ar waith a sut mae'n gweithredu goblygiadau'r Cytundeb.

1.2 Mae'r adroddiad hwn - yr olaf a gyflwynir - yn gwneud hynny ac mae'n cynnwys gwaith CCG yn ystod ei seithfed flwyddyn o'r 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017.

**2.0 Sgôp**

2.1 Mae sgôp yr adroddiad yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1. Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig
2. Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a gwaith buddsoddi cysylltiol arall
3. Trefniadau ymgynghori gyda thenantiaid a phrydleswyr
4. Goblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)
5. Protocol Aelodau Etholedig
6. Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig
7. Materion gweithredol eraill

**3.0 Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig**

3.1 Bydd aelodau yn ymwybodol, ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau llynedd (24/11/2016) bu i'r Cyngor gytuno yn ffurfiol bod CCG wedi cyflawni'r holl addewidion Gynnig a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen.

**4.0 Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a gwaith buddsoddi cysylltiol arall**

4.1 Tra mai canolbwynt gwaith rhaglen fuddsoddi CCG ar gyfer y 5-6 mlynedd gyntaf oedd sicrhau cydymffurfiaeth gyda SATC, y canolbwynt wedi hynny yw cynnal y stoc i SATC gan hefyd symud ymlaen i gyfleoedd datblygu newydd a syniadau busnes eraill. Y gwariant ar waith Cyfalaf a Buddsoddi yn 2016/17 oedd £10.5m gyda £4.0m wedi ei wario ar adeiladu cartrefi newydd.

4.2 Mae Hyfforddiant a Recriwtio wedi ei Dargedu a chyfleoedd Budd Cymunedol yn parhau i fod yn flaenllaw yn ein gweithgareddau o fewn Asedau a Buddsoddi drwy'r Rhaglenni Buddsoddiad Cyfalaf a Datblygu.

Mae cymalau cymdeithasol craidd yn ymwneud â Hyfforddiant a Chyflogaeth wedi eu cynnwys yn y fframwaith adeiladu o'r newydd, buddsoddiad cyfalaf ac mae contractau adnewyddu eiddo an-nhraddodiadol yn gofyn i bob darparwr gwasanaeth gynhyrchu 52 wythnos o hyfforddiant ar gyfer pob £1m o wariant - mae hyn yn cyd fynd â chanllawiau i2i Llywodraeth Cymru a oedd wedi eu gosod o dan SATC.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r nifer o gyfleoedd hyfforddi sydd wedi eu cyflawni drwy'r cymalau hyfforddiant a recriwtio wedi eu targedu yn ystod 2016/17:

| | |
|---|---|
| Prentisiaid wedi eu cadw | 13 |
| Prentisiaid newydd | 15 |
| Hyfforddai wedi eu cadw | 3 |
| Lleoliadau profiad gwaith di-dâl | 10 |
| Cyfanswm cyfleoedd hyfforddi wedi eu creu | 41 |

Mae'r cymalau cymdeithasol sydd ddim yn rhai craidd yn annog darparwyr gwasanaeth i ymgymryd â buddion cymunedol ac i gyfrannu a chefnogi mentrau cymdeithasol lle bo'n bosib drwy gyfraniadau (deunyddiau neu ariannol), llafur neu oriau staff. Mae'r prosiectau / mentrau canlynol wedi derbyn sylw a chefnogaeth yn ystod 2016/17:

- Darparu fainc ar gyfer parc Ffordd Abererch, Pwllheli (Gareth Morris Construction)
- Ail osod golau yng Nghanolfan Gymunedol Hirael, Bangor (Gareth Morris Construction & Adever)
- Gwaith adnewyddu ar gwt sgowtiaid a geidiaid ym Mhwllheli (Wates)
- Cyflwyniad addysgol i Goleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor (SBS)
- Darparu lleoliadau profiad gwaith i unigolion Canolfan Waith + (Gareth Morris Construction)
- Darparu profiad safle ar gyfer prentisiaid llawn amser Lefel 2 yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau o dan y cynllun Creative Solutions (Gareth Morris Construction)
- Darparu llwybr cerdded yn Llwyn y Ne, Clynnog (G.H. James Cyf.)
- £500 tuag at weithgareddau Cyngor Cymuned Aberdyfi (Gwasanaethau Amgylcheddol Wilmot Dixon).

Cynhaliwyd cynllun lleoliad gwaith 'Adeiladu Profiad 'CCG am y drydedd flwyddyn yn olynol gyda dau fyfyriwr o Goleg Menai yn cael 5 wythnos o waith gyda thâl dros yr haf mewn timau amrywiol o fewn y gyfarwyddiaeth Asedau a Buddsoddi.

4.3 Mae Tabl 1 isod yn dangos cydymffurfiaeth CCG gyda SATC yn ôl elfennau ar 31ain Mawrth 2017. Dyma'r ffigyrau sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u trefniadau monitro SATC blynyddol.

**Tabl 1: Stoc sy'n cydymffurfio â SATC yn ôl yr elfen ar 31ain Mawrth 2017**

| | Elfen | Stoc ar y 31/03/2017 | Cydymffurfio | Ddim yn cydymffurfio | Methiant Derbyniol | Cydymffurfio | Canran o gydymffurfiaeth / cydymffurfiaeth gyda "methiannau derbyniol" ar gyfer yr elfen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Toeau a chydrannau | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |
| 2 | Ffenestri | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |
| 3 | Drysau Allanol | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |
| 4 | Ceginau | **6,237** | 5,838 | 41 | 358 | 94% | **99%** |
| 5 | Ystafelloedd Ymolchi | **6,237** | 5,989 | 49 | 199 | 96% | **99%** |
| 6 | Systemau Gwres Canolog | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |
| 7 | Trydanol | **6,237** | 5,897 | 0 | 340 | 94% | **100.0%** |
| 8 | Synwyryddion Mwg yn gweithio ar y prif gyflenwad | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |
| 9 | Gerddi a mannau storio allanol | **6,237** | 6,237 | 0 | 0 | 100% | **100.0%** |

## 5.0 Trefniadau ymgynghori gyda thenantiaid a phrydleswyr

5.1 Ymgynghori gyda thenantiaid a phreswylwyr

Yn ystod 2015/16, datblygwyd strategaeth newydd yn lle Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2012/15. Cafodd y Strategaeth Cyfranogiad Cwsmer 2016-2020 ei chymeradwyo gan Fwrdd CCG ym mis Mai 2016 ac yna ei roi ar waith. Amcan y fframwaith newydd yw ymdrin ag anghenion ein cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol. Mae'n darparu ystod o gyfleoedd gwahanol i ymgysylltu gyda CCG sy'n cynnwys dulliau traddodiadol a rhai mwy anffurfiol, mwy o gyfleoedd lleol a dulliau mwy arloesol, er enghraifft, drwy gyfryngau digidol.

Yn dilyn ymgynghoriad llwyddiannus gyda'n tenantiaid bu i CCG ymuno â "Rental Exchange" sy'n system gwella cyfradd credyd y tenantiaid hynny lle nad yw eu cyfrif rhent mewn dyled sydd yna yn eu caniatáu i gael mynediad at gredyd rhatach.

5.2 Ymgynghori gyda Phrydleswyr

Cynhaliwyd adolygiad o Bolisi Prydleswyr CCG yn ystod y flwyddyn gan sicrhau ymgysylltiad llwyddiannus gyda Phrydleswyr. Mae'r polisi wedi gwella ein gwasanaeth ar gyfer Prydleswyr a chyhoeddwyd Llawlyfr Prydleswyr ynghyd â chynnal hyfforddiant ar gyfer staff penodol ar gynnwys y Polisi a threfniadau rheoli penodol ar gyfer Prydleswyr.

5.3 Gweithgaredd ymgysylltu eraill

5.3.1 Crwydro Stadau

Bu i CCG barhau gyda'n rhaglen o sesiynau crwydro stadau ar draws y sir. Bu i ni ymweld â thua 600 o eiddo ar hyd a lled Gwynedd gan gynnwys Clynnog, Trefor, Bryncrug, Coed Mawr (Bangor), Dolgellau, Llanllyfni a Waunfawr. Bu i ni ddefnyddio'r ymweliadau i gasglu sylwadau cyffredinol gan ein tenantiaid ar y gwasanaethau y maent yn eu cael gan CCG.

5.3.2 Cynllun Wardeiniaid Ifanc CCG

Cynhaliwyd ein Cynllun Wardeiniaid Ifanc eto yn ystod haf 2016 a bu iddo barhau i fod yn llwyddiant lle cymerodd blant o ysgolion Llanllyfni, Talysarn a Maesgeirchen ran. Bu i 14 o blant gael eu tywys gan Wardeiniaid Bro CCG yn ystod y 5 wythnos dros y gwyliau haf. Cawsant gyfle i ddysgu am CCG ac am waith dydd i ddydd y warden ac ymweld a dysgu gan nifer o bartneriaid eraill fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tân, Ambiwlans Awyr, Llys yr Ynadon ayb.

Amcan y cynllun yw helpu codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o effaith troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ein cymunedau.

## 6.0 Goblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)

6.1 Partneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin

Daeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd i rym ar y 10fed o Fedi 2012, mae'r trefniadau o dan Gytundeb y Bartneriaeth yn disodli'r Cytundeb Enwebiad a Thai. Mae'r Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd bellach yn gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai Cyffredin yn unol â'r Polisi Gosod Cyffredin.

6.1.1 Prif lwyddiannau:

- Bu i'r diwrnod i feddwl cyntaf ar gyfer aelodau'r bartneriaeth Tîm Opsiynau Tai cael ei gynnal i rannu arfer da a chanolbwyntio ar welliannau gweithredol yn ymwneud â chriteria ymddygiad annerbyniol, lleihau ceisiadau trosglwyddo a gosod tai gwarchod.
- Mae peth gwaith wedi ei wneud i adolygu'r Polisi Gosod Cyffredin o ran rhoi mwy o bwyslais ar fforddiadwyedd tenantiaethau yng ngoleuni parhau â Diwygio Lles. Dylai hyn arwain at denantiaethau mwy cynaliadwy wrth symud ymlaen.
- Cynhaliwyd adolygiad proses busnes o wasanaeth gosod CCG gydag argymhellion yn cael eu cynnig i symleiddio a chynyddu effeithlonrwydd ein prosesau gosod.

6.1.2 Pethau na aeth cystal:

- Er gwaethaf y gweithio ar y cyd sydd wedi ei grybwyll uchod, mae gweithrediad y Tîm Opsiynau Tai yn parhau i fod yn faes sy'n achosi tensiwn ymhlith partneriaid gyda gweithgareddau a dyddiadau cau sydd wedi eu cytuno ddim yn cael eu cwblhau neu yn cael eu methu. Rhai enghreifftiau yw ein bod yn parhau i aros am yr adroddiad am foddhad cwsmeriaid a c nad yw'r criteria sydd wedi ei gytuno o ran ymddygiad annerbyniol wedi ei gymhwyso. Mae'r problemau hyn wedi eu nodi yn ffurfiol gyda deialog yn parhau rhwng CCG, y partneriaid a'r Cyngor.

6.1.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Gweithio gyda phartneriaid a'r Cyngor i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Tîm Opsiynau Tai. Meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt fydd gwella'r cyngor am dai a gaiff ei roi i ymgeiswyr posib a sicrhau bod ymgeiswyr yn llawn deall y gost o redeg eu cartrefi ac felly yn cynnal eu tenantiaethau yng ngoleuni diwygio lles parhaus.
2. Pennu cyfeiriad y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Tîm Opsiynau Tai yn y dyfodol.

6.2 <u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>

Bu i Gyngor Gwynedd gyflawni'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) canlynol ar ran CCG yn ystod blwyddyn ariannol 2016-2017:

1. Gwasanaethau Cynnal Tir.
2. Cefnogaeth TGCh (darparu a chefnogi Rhwydwaith Ardal Eang a Chefnogi Rhaglenni – Geographical Information System (GIS)
3. Gwasanaethau Rheoli Pla.
4. Gwasanaethau Carthffosiaeth.

5. Gwasanaeth Systemau Teledu Cylch Cyfyng (TCC).
6. Gwasanaethau Golau Stryd.

Hefyd, bu i Gyngor Gwynedd gyflawni'r cytundebau canlynol ar ran CCG wedi iddynt gael y cytundebau yn dilyn proses dendro gystadleuol:

1. Gwasanaethau'r Gyflogres.
2. Gwasanaethau Glanhau mannau Cymunedol (Ardal Dwyfor)

Ymhellach i hyn, bu i Gyngor Gwynedd gyflawni agweddau penodol o Wasanaethau Cyfreithiol i CCG.

Darparir datganiad ar gyfer bob CLG isod:

1. Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tir - cafodd y cytundeb ei ail dendro yn dilyn proses gaffael OJEU gyda Chyngor Gwynedd yn llwyddo i ennill y tendr. Gafwyd rhai anawsterau gyda'r gwasanaeth yn ystod haf 2016 o dan yr hen gytundeb ond o dan drefniadau'r cytundeb newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2017, mae'n ymddangos bod y gwasanaeth wedi gwella.
2. Cefnogaeth TGCh (darparu a chefnogi Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) a Chefnogi Rhaglenni "-Geographical Information System "(GIS)). Yn ystod 2016-17, penderfynodd CCG symud ein holl offer TG gan gynnwys y system ffôn i ganolfan ddata (yn hytrach na system ar weinydd wedi ei leoli ar safle). Wrth symud yr isadeiledd TGCh i ganolfan ddata bu rhaid adolygu darpariaeth rhwydwaith CCG. Roedd yna nifer o gyfyngiadau wedi eu gosod ar CCG gydag ein rhwydwaith PSBA yn parhau i gael ei reoli gan Gyngor Gwynedd ar ein rhan. Roedd gofyn i CCG arwyddo cytundeb arall gyda darparwr gwasanaeth arall ac felly roedd rhaid i ni ddod a'n cytundeb CLG gyda Chyngor Gwynedd i ben. Er mai ein bwriad oedd parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau GIS gan Gyngor Gwynedd, yn ddiarwybod i ni, roedd darparu GIS yn ddibynnol ar gael y rhwydwaith PSBA ac felly roedd rhaid i ni ddarganfod datrysiad arall. Ar ôl ymarfer caffael bach (a oedd yn cynnwys Cyngor Gwynedd), mae CCG wedi dewis Cadcorp fel ein darparwr GIS ac felly rydym wedi gorfod, yn anffodus, terfynu ein CLG gyda Chyngor Gwynedd.
3. Gwasanaethau Difa Pla - Mae'r CLG wedi ei ymestyn am 12 mis hyd Ebrill 2018. Mae'r gwasanaeth yn un effeithiol a chaiff ei gyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol.
4. Gwasanaethau Draeniau - mae'r CLG wedi ei ymestyn hyd Ebrill 2018 gyda'r bwriad o ymgymryd â phroses gaffael OJEU i roi cytundeb newydd ar waith o'r dyddiad hwnnw. Mae'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd o safon uchel.
5. Gwasanaethau System Teledu Cylch Cyfyng (TCC) - tynnodd CCG yn ôl o'r CLG o fis Ebrill 2017.
6. Gwasanaethau Golau Stryd - trefniadau presennol gyda Chyngor Gwynedd wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu yn parhau i fod yn effeithiol ac mae perthynas waith da wedi ei gynnal.
7. Gwasanaethau'r gyflogres - o ganlyniad i'r gwasanaeth effeithiol sydd wedi ei ddarparu o fewn y cytundeb, mae'r cytundeb wedi ei hymestyn yn ffurfiol hyd at fis Mawrth 2018.

8. Gwasanaethau Glanhau Cymunedol - Bu i Gyngor Gwynedd gyflawni'r cytundeb lanhau yn ardal Dwyfor. Mae perfformiad yn dda yn gyson gyda safon uchel yn cael ei gynnal.
9. Gwasanaethau Cyfreithiol - bu i CCG ail dendro gwasanaethau cyfreithiol yn ystod y flwyddyn gyda fframwaith newydd yn dod i rym ar y 01/01/2017. Roedd adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus o dan Lot 1 ac wedi darparu gwasanaeth cyfreithiol ar gyfer materion eiddo, cynllunio, cytundebau a chaffael. Mae rhan fwyaf o'u gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys prynu a gwerthu tir.

6.2.1 Prif lwyddiannau:

1. Mae perthynas waith da wedi ei chynnal gyda staff Cyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod lle bu i'w cyfraniad barhau yn unol â'r CLG perthnasol er gwaethaf newidiadau o ran darparu gwasanaeth o fewn nifer o gytundebau.
2. Mae gwasanaeth Cynnal a Chadw Tir Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r trefniadau cytundeb newydd.

6.3 <u>Protocol Budd-dal Tai</u>

Mae Protocol Budd-dal Tai yn nodi ymrwymiadau ar gyfer Cyngor Gwynedd a CCG i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod rhent yn cael ei dalu ar amser i denantiaid. Mae Budd-dal Tai yn ffynhonnell incwm pwysig i CCG ac mae'n hanfodol bod cytundebau lefel gwasanaeth a safonau yn cael eu cadw i sicrhau bod hawliadau gan denantiaid yn cael eu prosesau a gweinyddu'n gyflym.

Mae CCG a'r Cyngor wedi parhau i weithio'n dda gyda'i gilydd i ymdrin ag effaith Diwygio Lles. Bydd unrhyw ymholiad neu anghysondeb 'ad-hoc' yn cael ymateb prydlon. Mae perthynas waith da yn gyffredinol wedi golygu bod ymholiadau cyffredinol a phroblemau wedi eu cadw i isafswm.

Y brif her yn ystod y flwyddyn o'n blaenau yw parhau gyda Diwygio Lles ac yn benodol ymateb i gyflwyniad Credyd Cynhwysol a'r cap ar daliadau Lwfans Tai Lleol.

## 7.0 Protocol Aelodau Etholedig

Bydd Aelodau yn ymwybodol o brotocol aelodau etholedig a gafodd ei gyflwyno wrth drosglwyddo fel bod yna un pwynt cyswllt o fewn CCG ar gyfer aelodau. Mae pob cais a ddaw gan aelod (ar wahân i rai o natur cynnal a chadw dydd i ddydd) yn cael eu cofnodi, eu gweithredu a'u monitro o fewn CCG gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwell a mwy ymatebol i aelodau.

Mae CCG yn teimlo bod perthynas waith cryf ac effeithiol wedi ei adeiladu gydag aelodau ac yn teimlo bod y berthynas yn tyfu i bartneriaeth sy'n symud cymunedau yn eu blaen.

## 8.0 Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig

Mae CCG yn aelod o grwpiau partneriaeth amrywiol ac wedi cymryd rhan mewn amryw o faterion tai strategol pwysig, fel:

1. **Parhad y Gofrestr Tai Cyffredin, Polisi Gosod Cyffredin a'r Tîm Opsiynau Tai**

2 **Digartrefedd** - bu i CCG barhau i ddarparu nifer o eiddo i'r Cyngor i gartrefu ymgeiswyr digartref ar sail dros dro i gynorthwyo'r Cyngor gyda'u goblygiadau statudol; cafodd 18 o eiddo eu rhoi ar gytundeb prydles i'w defnyddio gan Gyngor Gwynedd.

3 **Cyflogaeth leol** - ers trosglwyddo, pan gafodd 170 o staff eu symud o dan amodau TUPE o'r Cyngor, mae CCG yn parhau i gyflogi nifer sylweddol o staff gyda 269 wedi eu cyflogi ar ddiwedd Mawrth 2017. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers llynedd lle cyflogwyd 244 aelod o staff. Hefyd, mae sawl cyfle cyflogaeth leol arall wedi eu sicrhau drwy raglen fuddsoddi cyfalaf CCG a'n darparwyr gwasanaeth.

4 **Darparu Tai Fforddiadwy** - mae CCG wedi gwneud cynnydd da yn dod o nifer o gyfleon datblygu i'r amlwg a nawr mae yna fwy o gynrychiolaeth ar Raglen Datblygu wedi ei Gynllunio Cyngor Gwynedd (PDP). Mae hyn wedi golygu bod CCG wedi gallu bod o gymorth i'r Cyngor sicrhau eu bod wedi gwario Grant Tai Cymdeithasol yn llawn ac unrhyw arian oedd wedi llithro a ddaeth i law. Yn ystod 2016/17, bu i CCG adeiladu 21 o unedau tai newydd, prynu 3 ychwanegol a dod a 15 uned yn ôl i ddefnydd; cyfanswm o 39 uned. Cymeradwywyd Strategaeth Ddatblygu a Strategaeth Rheoli Tir a Gwaredu newydd gan Fwrdd CCG ac ar y cyd byddant yn caniatáu CCG i greu banc o dir, gwaredu asedau sy'n atebolrwydd a sicrhau ein dyheadau o ddarparu 300 o gartrefi fforddiadwy drwy denantiaethau amrywiol erbyn 2020. Bydd y targed uchelgeisiol yma yn cynorthwyo Cyngor Gwynedd ac awdurdodau lleol eraill o ddefnyddio eu Grant Tai Cymdeithasol neu Grant Arian Tai yn llawn a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ar y targed cenedlaethol o 20,000 o dai fforddiadwy erbyn 2020.

5 **Addasiadau i'r Anabl** – Bu i'r Panel Addasiadau ar y cyd gyda'r Cyngor barhau i gyfarfod yn fisol i sicrhau bod angen tenantiaid am addasiadau yn cael eu trin mor effeithiol â phosib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

6 **Diwygio Lles** – Bu i CCG barhau i gyfrannu tuag at y tasglu aml sefydliadol Diwygio Lles gyda'r bwriad o baratoi pobl Gwynedd am y Diwygio Lles. Bu i CCG gefnogi tenantiaid i geisio am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn oedd yn cael ei weinyddu gan y Cyngor. Mae'r grant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynaladwyedd nifer o'n tenantiaethau. Mae yna bryder y bydd y galw ar y Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yn cynyddu pan gaiff newidiadau pellach i fudd-dal lles ei gyflwyno (Credyd Cynhwysol, Cap Budd-dal, Cap Lwfans Tai Lleol...).

7 **Gisda** - Mae Gisda bellach yn rheoli un o'r blociau yn Nhre'r Gof, Caernarfon. Mae hyn yn rhoi amgylchedd diogel i bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o raglen cefnogaeth ddwys Gisda er mwyn dangos iddynt y gallent gynnal eu tenantiaethau eu hunain. Mae hwn yn gynllun gwerthfawr sy'n gwneud lle i bobl ifanc eraill sydd angen cefnogaeth gyda chael tŷ. Bydd y cap Lwfans Tai Lleol yn effeithio yn ddifrifol ar y cynllun yma os na chaiff darpariaeth

ychwanegol ar gyfer tai cefnogol ei gyflwyno.

8 **Heddlu Gogledd Cymru** - Mae Partneriaeth CCG gyda Heddlu Gogledd Cymru ar ymyrraeth gynnar yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae hyn yn ein caniatáu i rannu gwybodaeth yn gynnar ar broblemau posib sy'n ymwneud â'n stadau neu denantiaid a dull rhagweithiol o atal a datrys problemau o'r fath.

9 **Iechyd** - mae CCG yn aelod o symudiad #2025 sydd wedi ei greu i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi gweithio yn agos gyda chynrychiolwyr staff Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar faterion iechyd meddwl i wella eu dealltwriaeth o faterion tai ac yn benodol i hwyluso mynediad amserol a haws i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer rhai o'n tenantiaid.

10 **Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) -** er nad ydym yn aelod statudol mae CCG yn ddiweddar wedi ymuno â'r PSB ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

## 9.0 Materion gweithredol eraill

9.1 Cefnogi Pobl

Yn ystod 2016/17 bu i CCG barhau i weithio'n agos gyda Thîm Cefnogi Pobl Cyngor Gwynedd i gefnogi tenantiaid hŷn a bregus i gynnal eu tenantiaethau.

Caiff y gwasanaethau Warden Tai Gwarchod, Larwm Cymunedol a'r Gefnogaeth fel bo'r Angen eu canmol gan y rhai sy'n eu defnyddio ond mae eu hariannu yn ddibynnol ar dderbyn grant Cefnogi Pobl.

Mae CCG yn parhau i bryderu am ddyfodol y grant cefnogi pobl y mae'n ei dderbyn ac mae CCG wedi cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i amddiffyn y llif ariannu yma drwy'r ymgyrch "Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl".

9.2 Polisi newydd Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi newydd ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol a gafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill 2014. Mae'r polisi yn gosod band rhent ar gyfer pob Cymdeithas Tai. Rhaid i'r rhent cyfartalog ar gyfer y Gymdeithas fod o fewn y band hwnnw. Mae gan Gymdeithasau ryddid i osod rhent ar gyfer pob eiddo ac er nad yw'r polisi yn nodi yn glir y dylid gosod rhent targed ar gyfer eiddo unigol, mae CCG wedi parhau i gymhwyso egwyddorion ein polisi blaenorol ac wedi pennu rhent targed ar gyfer pob eiddo.

O dan y polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i bennu'r cynnydd chwyddiant blynyddol ac maent wedi gosod cap o £2 ar unrhyw gynyddiadau ychwanegol sydd i'w gymhwyso i rent wythnosol. Rhaid i godiad rhent cyfartalog fod yn llai na'r MPD (yn seiliedig ar y gyfradd a osodwyd y mis Medi blaenorol) ynghyd â 1.5% ac uchafswm o £2 yr eiddo. Mae cynnig Llywodraeth Cymru i gyfyngu cynnydd chwyddiant i MPD + 1% o 2017/18 ymlaen. Er nad yw wedi ei gytuno yn ffurfiol, efallai y bydd hyn yn creu problemau sylweddol i CCG oherwydd y lleihad mewn

incwm gan fod ein cynllun busnes presennol yn gofyn am gynnydd rhent o CPI + 1.5%.
Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i adolygu'r polisi rhent cenedlaethol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pryd y mae disgwyl i'r ymgynghorwyr yma adrodd ar eu darganfyddiadau.

9.3 <u>Rheoli Casglu Rhent/Incwm</u>

Cyfanswm ôl-ddyledion fel canran o rent casgladwy ar gyfer tenantiaid presennol oedd 1.89% ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 o'i gymharu â 1.8% ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
Mae CCG yn parhau i gefnogi tenantiaid ar gyfer yr effaith ariannol a ragwelir o ganlyniad i Fesurau Lles y Llywodraeth a newidiadau i'r system Budd-dal Tai. Mae monitro effaith Diwygio Lles yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i CCG gan fod Credyd Cynhwysol wedi cychwyn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd; mae profiadau hyd yn hyn yn dangos bod y tenantiaid hynny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn aros am o leiaf 6 wythnos cyn cael eu taliad cyntaf sydd yn creu ôl-ddyledion yn syth ar eu cyfrif rhent. Mae effaith capiau ar Fudd-dal Tai a Lwfans Tai Lleol (LTLl) yn achosi pryder mawr i CCG a gall y ddau effeithio ar hyfywedd ariannol CCG yn y dyfodol os na ellir amddiffyn ein hincwm rhent.
.

9.4 <u>Eiddo Gwag</u>

Mae perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad yma yn parhau i fod yn faes sy'n derbyn sylw. Tra bod y golled rhent o dai gwag wedi sefydlogi i lefel dderbyniol ar 1.1% ar ddiwedd y cyfnod a hynny lawr o 1.99% ers y flwyddyn flaenorol, yr amser cyfartalog i osod eiddo oedd 50.39, sy'n rhy uchel. Mae'r gwasanaeth gosod wedi bod yn ddarostyngedig i adolygiad proses busnes a bydd yr argymelliadau yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2017/18.

9.5 <u>Sefydliad Llafur Uniongyrchol (DLO)</u>

- Bydd aelodau yn ymwybodol bod gwasanaeth trwsio mewnol CCG wedi bod yn ddarostyngedig i gynllun gwella trawsnewidiol i ddarparu gwasanaeth modern, yn canolbwyntio ar y cwsmer a gwasanaeth cost effeithiol. Mae'r trawsnewidiad wedi bod yn dda, gyda'r prif uchafbwyntiau fel a ganlyn:
- Gwelliannau sylweddol mewn cynhyrchedd gyda gwaith ar gyfartaledd yn cael ei cwblhau wedi eu cynyddu o 3 i 6 y diwrnod fesul gweithiwr. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer yr apwyntiadau a wnaed gan gynnal perfformiad uchel apwyntiadau wedi eu cadw (96.65% gyda 4200 o apwyntiadau ychwanegol wedi eu cynnig)
- Gwelliant sylweddol ym mherfformiad "Cywir tro Cyntaf" ar gyfer gwaith trwsio wedi eu cwblhau o 80.32% i 91.41%.
- Bu i berfformiad ar gyfer gwaith trwsio mewn argyfwng hefyd wella o 97.83% i 99.0%.
- Lleihad sylweddol gwariant ar isgontractwyr
- Lleihad o £10/awr yn y gyfradd tâl am wasanaeth. Mae gostyngiadau pellach wedi eu cynllunio er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gystadlu gyda chontractwyr

preifat ac felly sicrhau dyheadau twf y gwasanaeth

- Lleihawyd risg corfforaethol wrth i gydymffurfio ar draws holl ffynonellau gwaith gwresogi (nwy, olew a thanwydd solet) gael ei gynnal.

| Blwyddyn | Tanwydd Soled | Olew | Nwy |
|---|---|---|---|
| 2016-17 | 98.98% | 99.81 % | 99.84 % |
| 2015-16 | 100.00 % | 100.00 % | 99.97 % |

Nodyn: mae pob eiddo nad ydynt yn cydymffurfio oherwydd tenantiaid yn gwrthod mynediad yn mynd ymlaen i brosesau cyfreithiol.

Mae mwy o gynlluniau ar waith i wella gwasanaeth yn y flwyddyn nesaf gyda gweledigaeth glir ar sicrhau gwerth am arian a gwella profiad ein cwsmeriaid o'r gwasanaeth.

9.6 Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA)

Bu i CCG gynnal ei achrediadau OHSAS 18001, ISO9001 a ISO14001 yn ystod y flwyddyn.

9.7 Rheoleiddio a Llywodraethu

9.7.1 Asesiad Rheoleiddio

Mae Rhan 2 y Mesur Tai (Cymru ) 2011 (y Mesur) sy'n ddiwygiad Rhan 1 y Ddeddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidog Cymru reoleiddio LCC yng Nghymru. Mae'r mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol ac ymyrryd i'r Gweinidog.
Yn ystod Hydref 2016, bu i Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Rheoleiddiol (ARh) ar ran Gweinidogion Cymru. Bwriad yr Asesiad Rheoleiddio yw darparu dealltwriaeth i CCG, tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda rydym yn perfformio, ar amser penodol yn erbyn canlyniadau cyflawni sy'n ymwneud â:

- Gwasanaethau landlord
- Llywodraethu
- Rheolaeth Gyllidol

Cynhaliwyd yr ARh yn unol â dull yn seiliedig ar risg tuag at reoleiddio sydd wedi ei nodi yn y 'Fframwaith Rheoleiddio' a chanllawiau cysylltiol 'Gwella Gweithredu y Fframwaith Rheoleddio: dull yn seiliedig ar risg tuag at reoleiddio' a 'Risgiau y Sector sy'n wynebu cymdeithasau tai yng Nghymru'.

Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn drwy gyswllt rheoleiddiol parhaus gyda CCG ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei ddarparu er mwyn creu barn reoleiddiol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a chasgliadau ym mis Rhagfyr 2016 ac mae ar gael ar wefan CCG a Llywodraeth Cymru; derbyniwyd y casgliadau fel asesiad rhesymol a theg gan Fwrdd CCG.
Mae'r berthynas gyda'r Rheoleiddiwr yn parhau i fod yn iach a chyswllt rheolaidd

wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol gan ganolbwyntio'n bennaf ar feysydd canlynol;

- Sicrhau bod gwasanaeth trwsio gan y Tîm Trwsio yn parhau i wella er mwyn rhoi gwasanaeth o safon i denantiaid
- Cynnal gwerthusiadau Bwrdd blynyddol a chadarn i sicrhau bod y Bwrdd yn cynnal a datblygu'r cyfuniad o sgiliau a phrofiad ac i'w ganiatáu i berfformio ei swyddogaethau yn effeithiol
- Datblygu cynllun olyniaeth effeithiol ar gael aelodau Bwrdd;
- Ceisio gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Bwrdd wrth recriwtio aelodau Bwrdd gyda'r sgiliau priodol
- Sicrhau bod dyhead y Bwrdd i ddatblygu cartrefi newydd i denantiaid sydd tu hwnt i'r targed sydd wedi ei osod yn Strategaeth Ddatblygu'r Sefydliad yn cael ei asesu o ran risg ac yn cael ei gynllunio a'i ariannu yn ddigonol er mwyn cyfrannu yn gadarnhaol at y cyflenwad o dai fforddiadwy.

9.7.2 Dyfarniad Hyfywedd Ariannol

O dan adran 33A Deddf Tai 1996, mae gan y Gweinidog Cymru rym i reoleiddio LCC yng Nghymru o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae asesiadau rheolaethol a wneir yn dilyn dull o ganolbwyntio ar risg sy'n gwneud dyfarniad ar hyfywedd ariannol y Gymdeithas. Mae'r dyfarniadau yn disgyn i un o'r categorïau canlynol: 'Pasio', 'Pasio gyda monitro rheolaethol agosach' neu 'Methu'.

Yn dilyn adolygiad Gweinidogion Cymru bu iddynt ddod i'r casgliad ym mis Ebrill 2106 mai Dyfarniad Hyfywedd Ariannol CCG oedd '**Pasio',** sef y dyfarniad uchaf o'r tri sydd ar gael, a chaiff ei ddiffinio fel:

**"Mae gan y Sefydliad adnoddau digonol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol busnes sydd wedi ei ragdybio nawr ac yn y dyfodol**"

Eglurwyd dyfarniad y Rheoleiddiwr fel â ganlyn;

- Mae CCG wedi paratoi rhagamcanion ariannol 30 mlynedd yn rhagdybio set resymol o dybiaethau.
- Mae gan CCG ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.
- Mae rhagamcan 30 mlynedd CCG yn dangos y dylai barhau i weithredu o fewn cyfamodau'r benthyciwr o dan amgylchiadau rhagweladwy rhesymol.
- Mae CCG wedi adrodd eu llwyddiant y sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2015 ac mae wedi defnyddio gwybodaeth arolwg cyflwr stoc i greu costau sydd wedi eu cynnwys yn ei ragamcan 30 mlynedd er mwyn parhau i gwrdd â'r safon yma.

9.7.3 Aelodaeth Bwrdd CCG

Mae Bwrdd CCG yn cynnwys 12 aelod sef 4 tenant, 4 aelod annibynnol a 4 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Yn ystod blwyddyn 2016/17:

i) Bu i enwebai Cyngor Gwynedd barhau'n gyson gyda'r flwyddyn flaenorol gyda'r Cynghorwyr Stephen Churchman, Anne Lloyd Jones, Michael Sol Owen a John Wyn Williams yn gwasanaethu ar y Bwrdd.

ii) Bu i dri aelod tenant o'r Bwrdd ymddeol (Margaret Bracegirdle; Nerys Williams; Anne Foote) a chroesawyd ddau aelod newydd - Alan Field a Lari Parc. Er gwaethaf ein hymdrechion i lenwi y 2 sedd wag ar gyfer tenantiaid, ni fu i ni fod yn llwyddiannus.

iii) Bu i'r Aelodau Annibynnol chwarae rôl sylweddol yn ystod y flwyddyn gyda Medwyn Hughes yn Gadeirydd y Bwrdd a Mark Jones yn cymryd rôl yr is-gadeirydd. Bu Abigail Tweed yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau. Bu i David Halsall ymddeol o'r Bwrdd, fodd bynnag bu i Paula Jewson (aelod cyf-etholedig) gymryd ei sedd ac felly cafwyd olyniaeth dda.

Mae gan ail ddosbarthiad Cymdeithasau Tai yng Nghymru o'r sector preifat i'r sector cyhoeddus gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2016 oblygiadau sylweddol ar y ffordd y caiff Cymdeithasau Tai eu rhedeg yng Nghymru. Yn benodol, efallai y bydd benthyciadau yn cael eu cyfyngu ar gyfer Cymdeithasau Tai - byddai benthyg yn cael ei gyfyngu o gymharu a'r trefniadau presennol yna ni fydd Cymdeithasau Tai yn gallu cwblhau cymaint o ddatblygiadau ac y maen nhw nawr.

Mae'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall rheolaeth y Llywodraeth gael ei leihau gyda nifer o gynigion yn cael eu cynnig. Un yw diddymu'r "Gyfran Aur" sydd gan Awdurdodau Lleol ar LSVT yng Nghymru a lleihau cynrychiolaeth yr Awdurdod Lleol ar y Bwrdd i uchafswm o 24% (o'r bwrdd).

O ganlyniad, fel pob LSVT arall yng Nghymru, bydd CCG yn edrych ar ei drefniadau aelodaeth bwrdd yn ystod 2017/18 a bydd yn trafod yn gyson gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen.

9.8 Rheoli Perfformiad

Mae system rheoli perfformiad staff ar-lein (Cynllun Llwyddo) yn rhan arferol o'r busnes a chaiff ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Caiff staff amcanion personol ar gyfer y flwyddyn sy’n cael eu hadolygu ar ôl 6 mis. Caiff perfformiad ac ymddygiad staff eu gwerthuso yn erbyn ein gwerthoedd corfforaethol sef: teg, atebol, agored, arloesol a chyfeillgar.

9.9 Rheoli Rhaglen

Mae CCG wedi cyflwyno nifer o brosiectau o bwys strategol a chorfforaethol yn llwyddiannus yn ystod 2016/17 o dan y rhaglen Rheoli Perfformiad.
Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prosiect Gwella Tîm Trwsio
- Strategaeth Rheoli Tir
- Diwygio Lles Cam 2 (Credyd Cynhwysol)

Mae CCG wedi parhau i wreiddio dull rheoli rhaglen i reoli ei agenda datblygu sefydliad yn effeithiol. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus i gyflawni sawl prosiect ar amser a sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer gwneud hynny.

Yn ystod 2016/17, cychwynnodd CCG ar Raglen Trawsnewid Busnes sy’n ceisio newid y ffordd yr ydym yn gweithredu ein busnes gyda staff a chwsmeriaid (gweler yr adran nesaf).

9.10 Trawsnewid Busnes

Mae Rhaglen Trawsnewid Busnes CCG wedi ei sefydlu i gyflawni’r amcanion canlynol:

1. Newid y ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau bod CCG yn gweithio’n fwy effeithiol ac yn darparu gwell gwerth am arian i’w gwsmeriaid.
2. Gall staff weithio yn fwy hyblyg, mewn ffordd sy’n addas iddyn nhw a'r cwsmer.
3. Bydd gwasanaethau yn cael eu cynnig i gwsmeriaid yn y dull maen nhw eisiau a phan fyddant ei angen.

Mae yna tri phrif lif gwaith o fewn y prosiect:

1. Trawsnewid Swyddfeydd gan gynnwys datblygiad sefydliadol.
2. Ail beiriannu proses busnes
3. Trawsnewid Digidol.

Y rhaglenni hyn yw sbardun i ddarparu newid dynamig i ddiwylliant gweithio CCG.

**Beth aeth yn dda?**

- **Trawsnewid Swyddfeydd -** Bydd swyddfeydd CCG yn cael eu lleihau o 8 i 4 erbyn Ionawr 2018 (Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Dolgellau) ac yn cael ei gefnogi gan nifer o swyddfeydd lloeren sy'n darparu gwell mynediad i'n tenantiaid (Pwllheli, Bala, Bermo) a bydd hyn yn creu arbedion ariannol i'r busnes.
- Mae'r **man gweithio** yn fwy hyblyg. Pethau newydd fydd ail ddylunio swyddfa, dwy sgrin, loceri, desgiau poeth a'r gallu i weithio unrhyw le yn y sir.
- **Datblygiad Cyfundrefnol -** Mae polisïau a phrosesau newydd ar gyfer weithio hyblyg wedi eu cyflwyno. Mae'r system werthuso wedi ei adolygu a bellach yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- **Trawsnewid Digidol -** Mae'r isadeiledd TGCh nawr yn seiliedig ar y cwmwl gan roi'r hyblygrwydd y mae'r busnes ei angen er mwyn hwyluso twf.
- Mae buddsoddi mewn technoleg symudol wedi golygu bod swyddogion CCG yn gallu gwneud eu gwaith yn symudol drwy i-pad sy'n cynnwys technoleg Total Mobile. Y gallu i gyflawni gwaith yn electronig gan gynnwys trefnu gwaith, llenwi ffurflenni, trefnu apwyntiadau a gallu cwblhau gwaith yn unrhyw le yng Ngwynedd.
- **Ail beiriannu proses busnes (BPR) -** Mae adolygiadau wedi eu cynnal ar draws nifer o adrannau ac mae newid yn cael ei roi ar waith o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn cynnwys prosesau eiddo gwag; anfonebu a threfnu apwyntiadau.

9.1 <u>Gofal Cwsmer</u>

**Gwelliannau i Adborth gan y Cwsmer**
Mae cael adborth gan ein cwsmeriaid yn chwarae rôl hanfodol yn y ffordd y mae CCG yn gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae newidiadau sylweddol wedi eu gwneud er mwyn sicrhau bod ansawdd yr adborth rydym yn ei gael yn gwella a bod y gwersi yn cael eu dysgu o ran lle gall newidiadau cadarnhaol gael eu gwneud i wasanaethau.

**Boddhad Cwsmer**
Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Cwsmer, bu i CCG gomisiynu arbenigwyr ymgynghori allanol (Mustard) i gynnal adolygiad o'n dulliau ymgynghori gyda chwsmeriaid. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd y dull presennol o gynnal Arolwg Boddhad Tenantiaid Blynyddol ac arolygon gwasanaeth unigol yn ychwanegu gwerth i CCG gan nad oedd yn rhoi mewnwelediad o ansawdd ac adborth am ba agweddau yr oedd tenantiaid CCG yn fodlon neu yn anfodlon gyda nhw.

Yn dilyn yr adolygiad yma, mae CCG wedi rhoi ffordd newydd ar waith o gynnal arolygon boddhad cwsmer. Bydd yr arolwg yn gofyn am adborth am wasanaeth y maent wedi ei gael yn ddiweddar gan CCG ac yna am eu canfyddiad cyffredinol am CCG fel eu landlord cymdeithasol. Caiff yr holl arolygon eu cynnal dros y ffôn sy'n ein galluogi i ofyn am wybodaeth ychwanegol pam bod tenantiaid o bosib wedi rhoi sgôr cadarnhaol neu negyddol i CCG. Mae canlyniadau cychwynnol y dull newydd wedi bod yn gadarnhaol iawn.

**Cwynion**

Mae’r ffordd y mae CCG wedi ymchwilio ac ymateb i gwynion gan gwsmeriaid yn ystod 2016/17 wedi gwella yn sylweddol. Rydym wedi trawsnewid y broses gwyno o un a oedd yn cael ei yrru gan dargedau i broses sy’n canolbwyntio ar y datrysiad. Mae’r weithdrefn gwynio newydd yn golygu bod ymchwiliad ac ymateb trylwyr yn cael eu rhoi i’r cwynydd ar gam cyntaf y gŵyn ynghyd a chynnal ymweliad os yw hynny yn briodol. Os yw’r cwynydd yn anfodlon gyda’r ymateb cychwynnol a’r ymchwiliad yna gallent ddyrchafu'r gŵyn i sylw aelod o’r Uwch Dîm Rheoli. Ers cyflwyno'r polisi cwynion newydd, rydym wedi gweld lleihad sylweddol yn y nifer o gwynion sy’n cael eu dwyn i sylw'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru.

9.12 Perthynas gyda Chyngor Gwynedd i'r dyfodol

Amcan CCG yw cynnal y berthynas gadarnhaol gyda Chyngor Gwynedd i’r dyfodol.

## 10.0 Casgliad

Bu i CCG barhau i fuddsoddi yn ei stoc a gwasanaethau i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda SATC a gwella profiad y cwsmer. Roedd uchafu'r budd i’n tenantiaid a chymunedau yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae’n bleser gweld bod nifer ein staff wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn o 244 i 269 ar ddiwedd Mawrth 2017 a bod ein rhaglen ddatblygu yn mynd o nerth i nerth ac ar y trywydd cywir o ddarparu 300 o gartrefi fforddiadwy drwy denantiaethau amrywiol erbyn 2020.

Bydd CCG yn parhau i dyfu yn ystod 2017/18 gyda’r uchelgais o weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid allweddol.

## 11.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Dyddiad | 30 Ionawr 2018 |
| Pwnc | **Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog** |
| Cyfeirnod Log Craffu | **G 7** |

Cyfarfod Llawn Cyngor Gwynedd – 15 Mehefin 2017

1 Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Glyn Daniels i gyfarfod llawn o'r Cyngor ar 15 Mehefin 2017:

"'Rwyf yn cynnig bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty a thrigolion Blaenau Ffestiniog i bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac awdurdodau perthnasol er sicrhau bod cyfleusterau priodol ac angenrheidiol yn yr ysbyty newydd sy'n cael ei godi yn y dref.

I'r perwyl hyn, golygaf fod cyfleusterau sy'n arferol i'w canfod mewn ysbytai lleol, megis uned pelydr x, mân ddamweiniau a nifer ddigonol o welyau i gleifion preswyl. O ystyried fod Blaenau Ffestiniog y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, ac hefyd fod ymateb y mwyafrif llethol o'r trigolion mewn refferendwm diweddar yn mynnu fod y dref yn haeddu gwell triniaeth, credaf nad oes unrhyw reswm i'r Cyngor beidio cefnogi'r cynnig hwn."

2 Penderfynwyd cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu Gofal, fel y gellid dod i benderfyniad ar ôl cael cyfle i glywed ac ystyried tystiolaeth berthnasol ar y mater, gan wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn i ddod i'r pwyllgor i gyflwyno tystiolaeth.

3 Nodwyd nad oedd amser o blaid y Cyngor, os am roi pwysau ar y Bwrdd Iechyd, a mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, ei barodrwydd i alw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i roi sylw i'r mater hwn ar fyrder.

4 Penderfynwyd cyfeirio'r mater yn syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd.

Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Craffu Gofal – 4 Medi 2017

5 Croesawyd a gwahoddwyd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynglŷn ag addasrwydd y ddarpariaeth iechyd arfaethedig ar gyfer trigolion Blaenau Ffestiniog a'r cylch.

6 Diolchwyd i'r Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog am eu cyflwyniadau.

7 Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ar chwe argymhelliad ond bod union eiriad terfynol yr argymhellion yn cael ei gyflwyno ar gyfer cytundeb terfynol y Pwyllgor Craffu Gofal yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017.

Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal – 21 Medi 2017

8 Ystyriwyd adroddiad i gadarnhau geiriad terfynol yr argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er gweithrediad.

9 Roedd gwahaniaeth barn ymysg Aelodau ynglŷn â geiriad cymal (ii) o'r argymhellion ac fe gynigwyd ac eilwyd i ddiddymu'r geiriau "amser rhesymol" a'i ddiwygio fel a ganlyn:

10 "bod y Pwyllgor yn gofyn am adroddiad ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog gan asiantaeth annibynnol yn syth, i'w gyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal.

11 Bod y Pwyllgor Craffu'n galw ar y Bwrdd Iechyd i fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny.

12 Cadarnhawyd bod geiriad gweddill yr argymhellion sef (i), (iii), (iv), (v), a (vi) yn dderbyniol.

13 O safbwynt darparu adroddiad annibynnol fel awgrymir uchod, nodwyd y byddai'r Cyngor yn medru cynnig enwau ymgynghorwyr arbenigol allanol i gyflawni'n gwaith.

14 Nodwyd nad oedd y *Cyngor Iechyd Cymuned* yn hapus nad oedd cynrychiolydd wedi derbyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal Arbennig ar gyfer y drafodaeth.

15 Penderfynwyd cyfleu yr argymhellion terfynol amgaeedig (***Atodiad A***) i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phrif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsti Cadwaladr.

<u>Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal – 30 Ionawr 2018</u> (heddiw)

16 Cyflwynir yma yn ***Atodiad A*** ymateb yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Argymhellion.

<u>Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>

17 Llythyr Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru at Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd ar 19 Ionawr 2018 ac Adroddiad y Pwyllgor Deisebau 22 Ionawr 2018. (***Atodiadau B a C***)

**18 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal:**

**A) Ystyried yr ymatebion**

**B) Penderfynu ar y camau nesaf**

ATODIA A - Iechyd yn Ardal Ffestiniog - Ymatebion i'r Argymhellion

| | Argymhelliad | Ymateb y Bwrdd Iechyd | Ymateb yr Aelod Cabinet |
|---|---|---|---|
| | | Yn dilyn eich e-bost, dyddiedig 25 Medi 2017, yn gwneud cais am ymateb dechreuol i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, yn ymwneud â Blaenau Ffestiniog, gallwn nawr ymateb, gweler isod. Nodwn fodd bynnag bod rhai argymhellion ((ii) a rhan o (iii)) wedi newid o'r rhai a gytunwyd yn gyhoeddus ar 4 Medi. | |
| i | Bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i rannu'r holl wybodaeth gefndir fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol i newid darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog. | Ymgymerwyd ag adolygiad ac ymgynghoriad Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn newid pum mlynedd yn ôl ac roedd set o wybodaeth cefnogi cynhwysfawr ar gael yn gyhoeddus ar y pryd. Roedd y cynigion penodol yn ymwneud â Blaenau Ffestiniog yn rhan o adolygiad strategol cyfan o wasanaethau cychwynnol a chymuned ar draws gogledd Cymru, oedd yn golygu bod llawer iawn o ddata wedi'i gipio ac mae ar gael. Os gwneir cais am feysydd penodol, rydym yn hapus i'w trafod.<br><br>Gwnawn anfon dwy ddogfen er gwybodaeth i chi: 'Adroddiad Llawn ar Ganlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r Argymhellion i'r Bwrdd' ac ORS (Opinion Research Services) - | Mater i BIPBC yw ymateb i'r argymhelliad yma. Nid yw y wybodaeth dan sylw gan adrannau Cyngor Gwynedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 'Papur Bwrdd Llawn am Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn newid - Asesu'r Dystiolaeth: Crynodeb Gweithredol'. – dogfennau i ddilyn. | |
| ii | Gofynna'r Pwyllgor am adroddiad ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog gan asiantaeth annibynnol yn syth i'w gyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal.<br><br>Bod y Pwyllgor Craffu'n galw ar y Bwrdd Iechyd i fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny. | Mae'n anodd ymateb yn fanwl i'r argymhelliad yma, gan na wnaethom wir fynd i'r afael â hyn yn y cyfarfod. Gan ragdybio bod y cais yn gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gomisiynu adroddiad fel hyn, buasai gennyf sawl pryder. I ddechrau, nid ydym yn ymwybodol o gorff priodol ac yn cael trafferth gweld sut y buasem yn tendro a dewis corff fel hyn, a fyddai wrth gwrs yn cymryd amser ac ni fyddai'n cael ei wneud ar unwaith, yn unol â'r argymhelliad. Yn ail, buasem yn cael trafferth fawr i gyfiawnhau ailgyfeirio cronfeydd cyhoeddus o ddarpariaeth gwasanaeth i dalu am adroddiad fel hyn. Yn drydydd, ein prif ffocws yw darparu'r hyn rydym wedi'i addo, erbyn y dyddiad rydym wedi ymrwymo iddo a byddai unrhyw beth a fyddai'n ein gwrthdynnu neu wyro o hyn yn ein pryderu'n fawr. Byddwn yn ymgymryd â gwerthusiad ôl brosiect o'r Ganolfan newydd cyn bo hir, yn ôl gofyniad Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o asesu'r buddion a chanlyniadau a wireddwyd gan y prosiect. Rydym yn disgwyl i wasanaethau barhau i esblygu ac ehangu yn y Ganolfan newydd ac yn y gymuned ehangach, yn unol â strategaeth 'Gofal Agosach i'r Cartref' LlC a'r Bwrdd Iechyd.<br><br>I grynhoi o ran argymhelliad (ii), ni fydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu | Nid yw y wybodaeth a data cefndir fyddai yn sylfaen i asesiad o'r fath ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae y wybodaeth yn cael ei ddal gan BIPBC a'u dyletswydd hwy oedd ymgynghori yn briodol a chasglu a dadansoddi yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer gwneud y penderfyniad gwreiddiol. Fel Cyngor, ac fel partner pwysig i'r Bwrdd Iechyd, rhaid ymddiried bod y gwaith asesu gwreiddiol wedi ei wneud mewn modd cytbwys, trwyadl a theg. Tra yn amlwg ein bod yn cydnabod pryderon carfan o drigolion y Sir ynglŷn â'r broses o benderfynu ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yn ardal blaenau Ffestiniog, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sydd yn amau priodoldeb y broses nag yn cyfiawnhau ail edrych ar y penderfyniad gwreiddiol.<br><br>Gyda y Ganolfan Iechyd newydd i agor ym Mlaenau Ffestiniog yn y dyfodol agos iawn, credaf ei bod yn ddyletswydd ar BIPBC i fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd. Os yw y wybodaeth a gesglir yn tystiolaethu nad yw y ddarpariaeth yn cyfarfod ag anghenion iechyd trigolion yr ardal yna byddwn yn disgwyl i BIPBC addasu y ddarpariaeth os oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adroddiad gan asiantaeth annibynnol am ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog. Byddwn yn ymgymryd â gwerthusiad ôl brosiect o'r Ganolfan newydd cyn bo hir, yn ôl gofyniad Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o asesu'r buddion a chanlyniadau a wireddwyd gan y prosiect. Rydym yn disgwyl i wasanaethau barhau i esblygu ac ehangu yn y Ganolfan newydd ac yn y gymuned ehangach, yn unol â strategaeth 'Gofal Agosach i'r Cartref' LlC a'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Ni allwn ymrwymo i ddiwygio/newid y ddarpariaeth yn arwyddocaol. | tystiolaeth i gyfiawnhau hynny. Yn naturiol, byddwn yn disgwyl i unrhyw addasiadau gael eu gwneud yng nghyd destun ymarferoldeb gweithredol ac ariannol ac i beidio bod ar draul unrhyw ddarpariaeth cyfatebol mewn unrhyw ardal arall o'r Sir neu siroedd cyfagos.<br><br>Dylwn hefyd nodi yma fy mod i yn cytuno yn llwyr gyda sylwadau sydd wedi eu gwneud gan Aelodau y Pwyllgor Craffu ar sawl achlysur yn y gorffennol ynglŷn â rôl a dyletswyddau Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC). Mae CICGC yn gorff gwarchod gwasanaethau iechyd cymunedol annibynnol sy'n cynrychioli llais y cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio'r Gwasanaeth iechyd yn ein hardal. Mae CICGC yn chwarae rhan hanfodol i ddylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio a'u darparu yn ein hardal er sicrhau'r canlyniadau iechyd a lles gorau posib i bobl gogledd Cymru. Mae cryfder CICGC yn ei statws statudol ac yn ei allu i gynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd heb unrhyw fuddiannau breintiedig. Mae hyn yn cynnwys elfen o fonitro effeithlonrwydd ac addasrwydd darpariaeth gwasanaethau Iechyd ar draws Gogledd Cymru. Mae CICGC yn ddolen gyswllt rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio.<br><br>Mae datganiad o bwrpas CICGC yn nodi yn glir y byddent yn ceisio barn a phrofiadau cleifion a'r cyhoedd i sicrhau llais cryfach gan y cyhoedd sy'n adlewyrchu beth sydd ganddynt i'w ddweud gan y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru. Bydd yn cydgysylltu gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau ei fod yn croesawu ac yn dysgu o'r adborth a'r wybodaeth a ddarperir gan CICGC, gan felly sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir nid yn unig yn cwrdd â disgwyliadau'r defnyddwyr, ond o'r safonau uchaf posib.<br><br>O ran eu rôl statudol mae'n debyg y byddai y CICGC yn gorff mwy priodol na'r Bwrdd Iechyd i ystyried cais i gomisiynu adroddiad annibynnol ar ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog. O ystyried bod CICGC wedi cynnig sylwadau ar y newidiadau gwreiddiol, rwy'n siŵr y byddent yn cadw golwg ar y ddarpariaeth gwasanaeth newydd wedi iddo gael ei sefydlu. |
| iii | Yn deillio o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog am ddiffyg ymateb i ddeisebau a gohebiaeth yn y gorffennol, bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddiffygion ymgysylltu ac ymgynghori yn y gorffennol er mwyn gwella'u trefniadau ar gyfer y dyfodol. Anogir y Bwrdd Iechyd i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud ei orau bob amser i gydnabod ac ymateb i bob gohebiaeth a chydnabod unrhyw ddeiseb a dderbyniwyd fel rhan o HciNWic yn ffurfiol. Wrth gwrs, rydym yn ymddiheuro os bu adegau lle na ymatebwyd i ohebiaeth.<br>Mae bob cais gan Bwyllgor Amddiffyn Blaenau i gyfarfod ag aelodau Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu derbyn a'u trefnu. Mae trefniadau cadarn yn eu lle i gofnodi a chydnabod bob gohebiaeth a dderbynnir yn swyddfa'r Prif Weithredwr/Cadeirydd.<br>Dros y 12 mis diwethaf, ymgymerwyd ag ymarferiad ymgysylltu a chyfathrebu eang gan Swyddogion Ymgysylltu a Chyfathrebu ardal y Gorllewin, gan gynnwys ystod o weithgareddau ymgysylltu'n lleol ym Mlaenau ac mae | Nid oes y fath beth a phroses ymgynghori/ymgysylltu sydd yn berffaith ac mae bob tro gwersi i'w dysgu o ran beth sydd wedi gweithio yn dda a beth oedd ddim cystal. Rwyf yn siŵr y bydd BIPBC yn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.<br><br>Yn dilyn newid mewn darpariaeth ar y raddfa yma, mae yn allweddol cofio nad yw cyfathrebu a chyswllt effeithiol yn diweddu ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Rhaid i hyn barhau wrth baratoi ar gyfer y newid ac wrth gwrs wrth fonitro effeithiau y newid wedi iddo gael ei weithredu.<br><br>Fe fyddaf yn annog BIPBC i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ffestiniog mewn perthynas â darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol. | newyddlenni a diweddariadau rheolaidd wedi'u hanfon allan a'u gosod yn electronig ar gyfryngau cymdeithasol. Mae Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft wedi cael ei greu ar gyfer Canolfan Goffa Ffestiniog ar gyfer y 12 mis nesaf a thu hwnt. | Ffestiniog mewn perthynas â monitor darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol. |
| iv | Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gomisiynu asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen. Tra byddai'r flaenoriaeth i'w roi ar y dalgylch yma, wedi ei gwblhau, gellir ystyried os oes budd i gynnal asesiadau tebyg mewn ardaloedd eraill. | Mae mynediad at wasanaethau o ran cludiant cyhoeddus a chymuned, yn enwedig mewn ardal wledig, yn flaenoriaeth fawr i'r Bwrdd Iechyd, a chroesawn asesiad o wasanaethau fel hyn sydd ar gael yn ein hardaloedd lleol, gyda'r bwriad o sicrhau gwelliannau. | Gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi cael trafodaethau anffurfiol dechreuol gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r swyddogion perthnasol gyda'r golwg o baratoi briff ar gyfer comisiynu asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen. Cytunaf y dylid rhoi blaenoriaeth i'r dalgylch hwnnw ac nid oes gennyf wrthwynebiad mewn egwyddor i gynnal asesiadau cyfatebol mewn dalgylchoedd ysbytai cymunedol eraill yn y dyfodol. Yn naturiol, bydd ystyriaethau capasiti ac adnoddau yn dylanwadu ar amserlen rhaglen lawn o asesiadau cludiant. |
| v | Bod yr angen am gartrefi addas ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cael ei wyntyllu'n llawn ar y cyd gan yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant | Ar gyfer Tai Gwynedd. | Mae'r Adran wedi ystyried y galw am ddarpariaeth amgen ar gyfer pobl hyn fel rhan o Strategaeth Dai Pobl Hyn, a Meirionnydd wedi ei chadarnhau fel un o'r ardaloedd o angen yng Ngwynedd. Byddai yn addas ystyried y galw am ddatblygiad o'r math yma petai modd canfod lleoliad addas ac arian i'w wireddu. Ni allwn bellach gyflwyno cais am adnoddau o gronfa Tai Gofal Ychwanegol gan nad yw'n bodoli ond mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Llywodraeth o ran |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a'r Bwrdd Iechyd ynghyd â Phartneriaeth Tai Gwynedd. | | buddsoddi mewn cynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi i bobl hyn ar draws Gwynedd. Mae'n debygol y byddai angen amrywio rhywfaint ar y model Gofal Ychwanegol oherwydd newid diweddar yn y drefn budd-dal tai. 'Rwyf i a'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn hyderus y byddai Cymdeithasau Tai yn barod i gyd-weithio ar gynllun Tai Gofal Ychwanegol diwygiedig ar y cyd â'r Cyngor a phartneriaid eraill. |
| vi | Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd i gydweithio'n agos a chymryd camau ymarferol priodol i recriwtio staff gofal ac iechyd fel bod timau llawn yn eu lle i gynnal gwasanaethau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ar draws y Sir. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio'n agos gyda'i holl bartneriaid awdurdod lleol. Mae gan Ardal y Gorllewin berthynas waith ardderchog gyda Chyngor Gwynedd ac mae recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol yn brif flaenoriaeth i'r ddau sefydliad. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddatblygu pum tîm adnoddau cymunedol integredig ar draws y sir. Mae'r timau yn ymgymryd ag ymagwedd canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn nodi a thynnu unrhyw rwystrau yn y system i sicrhau gwasanaeth amserol ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i'r unigolion a gefnogir. Y nod yw 'fy helpu i fyw bywyd fel yr ydw i eisiau ei fyw'. Rydym hefyd yn annog ac wedi lansio cynllun 'hyfforddi, gweithio a byw yng Ngogledd Cymru.' | Rwyf yn cytuno yn llwyr gyda'r argymhelliad yma. Mae sicrhau bod gennym gapasiti a sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn allweddol. Mae nifer o ffactorau yn cynnwys lefelau cyflog llwybr gyrfa a delwedd y gwaith yn dylanwadu ar y problemau recriwtio yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac mae pwyslais y ffactorau yma yn amrywio o ardal i ardal ar draws y Sir. Byddai gweithio yn annibynnol yn parhau rhai o'r problemau yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd megis staff yn symud o un awdurdod neu ddarparwr i'r llall tra bod y bwlch sylfaenol o ran capasiti i ofalu am unigolion bregus yn parhau. Mae y bylchau yma yn rhwystr i'r Cyngor ac i'r Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ein gwaith yn effeithiol a galluogi trigolion bregus y Sir i fyw eu bywydau fel y maent yn dymuno eu byw. Fy mwriad yw ceisio cael cefnogaeth y Cabinet a'r Cyngor i flaenoriaethu y maes yma yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd nesaf ac fe fyddai hynny yn cynnwys adnabod sawl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | prosiect/ffrwd gwaith ymarferol i geisio ymateb i’r her yma sydd yn ein hwynebu. |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

**National Assembly for Wales**
Petitions Committee

Eryl Jones-Williams
Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Gofal
Cyngor Gwynedd

cynghorydd.eryljones-williams@gwynedd.llyw.cymru

19 Ionawr 2018

Annwyl Cyng. Jones-Williams

**Deiseb P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog**

Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers 2014.

Ddydd Llun 22 Ionawr byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr yn crynhoi ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb. Fe welwch gopi ynghlwm.

Rydym yn cydnabod bod cryn amser wedi mynd heibio ers y newidiadau a arweiniodd at y ddeiseb, yn ogystal â'r ffaith bod Canolfan Goffa Ffestiniog newydd wedi agor yn ddiweddar ar safle'r Ysbyty Coffa. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu nifer o argymhellion yn ddiweddar mewn perthynas â'r ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog, y cyfeiriwn atynt yn yr adroddiad. O ganlyniad, credwn fod hon yn adeg briodol i ystyried y dystiolaeth a gawsom ar y ddeiseb hon.

Rydym wedi dod i ddau gasgliad fel rhan o'r adroddiad hwn a byddem yn croesawu unrhyw farn sydd gennych mewn ymateb i'r rhain. Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwyd ac unrhyw gamau pellach y gallem eu cymryd ar

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565


**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

y ddeiseb yn ein cyfarfod ar 13 Mawrth 2018. Felly, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau erbyn **28 Chwefror**.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb hon, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar gael ar y wefan yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10060

Fel arall, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor yn SeneddDeisebau@cynulliad.cymru neu ar 0300 200 6379.

Yn gywir



David J Rowlands AC
Cadeirydd

# Deiseb P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog:

# Crynodeb o drafodaeth y Pwyllgor Deisebau

Ionawr 2018

## Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y ddeiseb gan Geraint Vaughan Jones ar ran Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog, wedi casglu 2,754 o lofnodion. Cafodd ei thrafod gyntaf gan y Pwyllgor Deisebau ar 17 Mehefin 2014.

**Testun y ddeiseb:**

Nes y bydd y Gweinidog Iechyd wedi cael cyfle i ystyried argymhellion yr Athro Marcus Longley yn ei adroddiad ar safon y gwasanaeth iechyd yng nghefn gwlad Cymru – adroddiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog ei hun yn Ionawr 2014 - yna rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddwyn perswâd ar Lywodraeth Lafur Cymru i ohirio trafod Cynllun Busnes Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n argymell israddio Ysbyty Coffa Ffestiniog i ddim byd mwy na "Canolfan Goffa".

**2.** Cyflwynwyd y ddeiseb mewn ymateb i gau Ysbyty Coffa Ffestiniog, ac yn benodol colli gwlâu i gleifion, cyfleusterau pelydr-X ac uned mân anafiadau.

**3.** Cynigiwyd y newidiadau hyn yn wreiddiol fel rhan o ymgynghoriad ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch cyflunio gwasanaeth yn 2012, sef "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid". Derbyniodd Bwrdd y Bwrdd Iechyd y rhain ar 18 Ionawr 2013 fel rhan o benderfyniad i sefydlu 10 o ganolfannau

ysbyty ar draws y gogledd. Byddai'r rhain yn darparu gwasanaethau mân anafiadau saith diwrnod yr wythnos gydag amseroedd agor safonol a gwasanaeth pelydr-x ar gael bob diwrnod gwaith.

**4.** Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod y newidiadau "wedi eu cynllunio i wella ansawdd gofal ac i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel a chynaladwy yn y tymor hir" a "darparu'r gwasanaethau y mae cleifion yn eu defnyddio fwyaf rheolaidd mor agos at eu cartrefi â phosibl, fel nad ydym yn anfon pobl i'r ysbyty pan fyddai'n bosibl darparu gofal mwy addas yn lleol".[1]

**5.** Ni ddewiswyd Ysbyty Coffa Ffestiniog fel un o'r canolfannau. Mae'r ganolfan agosaf yn Ysbyty Alltwen yn Nhremadog, sef taith ffordd o ryw 13.5 milltir o Flaenau Ffestiniog.

**6.** Cynigiwyd canolfan iechyd i gymryd lle'r ysbyty wedi i'r safle gael ei ailddatblygu. Fodd bynnag, daeth gwasanaethau gofal cleifion mewnol, cyfleusterau pelydr-X a mân anafiadau i ben ym Mlaenau Ffestiniog o ddechrau 2013.

### Gwlâu cleifion

Roedd deuddeg gwely i gleifion mewnol yn yr Ysbyty Coffa cyn ei gau. Ar y pryd, darparodd y Bwrdd Iechyd chwe gwely ychwanegol yn Ysbyty Alltwen, gan weithredu polisi 'Gofal Ychwanegol yn y Cartref' i geisio lleihau'r angen i ofalu am gleifion mewn ysbytai. Roedd hyn yn golygu darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer nyrsio, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Comisiynodd y Bwrdd Iechyd dri gwely arall yng Nghartref Preswyl Bryn Blodau ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer gofal cam i fyny/i lawr. Fodd bynnag, oherwydd mai cyfleuster preswyl yw hwn, nid yw'n darparu gofal nyrsio.

### Gwasanaethau pelydr-X a mân anafiadau

Roedd pedair sesiwn pelydr-X yn cael eu cynnal yn yr Ysbyty Coffa bob wythnos. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r sesiynau yn gyffredinol ond hanner y lefel a argymhellir ar gyfer gwasanaethau o'r fath, ac nad oedd yr uned mân anafiadau ar y cyfan ond wedi gweld dau neu dri chlaf y dydd. Ar sail hyn, roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn bod y gwasanaethau bellach yn anghynaliadwy oherwydd diffyg galw.

[1] Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Erthygl newydd **'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'**, 18 Ionawr 2013

Mae'r ddau wasanaeth bellach yn cael eu darparu yn Ysbyty Alltwen.

## Pryderon y deisebwyr

**7.** Yn sgil cau'r gwasanaethau yn Ysbyty Coffa Ffestiniog, roedd gan y deisebwyr bryderon difrifol ynghylch pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gofal iechyd yn yr ardal.

### Cau Ysbyty Coffa Ffestiniog

**8.** Yn ystod cyfnod cychwynnol trafodaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb, dadleuodd y deisebwyr na ddylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo achos busnes y Bwrdd Iechyd ar gyfer sefydlu canolfan iechyd yn lle Ysbyty Coffa Ffestiniog nes bod modd trafod canfyddiadau Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru.[2] Oherwydd bod y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn yr ysbyty eisoes wedi'u diddymu, roedd hyn yn dibynnu ar y gobaith y byddai'r gwasanaethau hynny'n cael eu hadfer yn dilyn yr adolygiad.

**9.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn ym mis Tachwedd 2014, pan ddywedodd Mark Drakeford AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, wrth y Pwyllgor nad oedd gwneud penderfyniadau am y dyfodol yn rhan o gylch gwaith yr astudiaeth oherwydd mai cyfrifoldeb statudol byrddau iechyd yw hyn. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl y dylai'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r canfyddiadau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, drwy ei drefniadau cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.[3]

**10.** Cyfeiriodd adroddiad terfynol Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru at y pwnc dadleuol mawr ynghylch y newidiadau i Ysbyty Coffa Ffestiniog, gan nodi:

> "Mae hi tu hwnt i amodau gorchwyl yr astudiaeth hon i archwilio a gwneud sylwadau am anghenion penodol y ddwy ardal hon [Blaenau Ffestiniog ac Aberteifi]."[4]

**11.** Roedd yr adroddiad yn cydnabod:

> "nid oes fawr o amheuaeth nad ydy llawer o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn heb gael eu darbwyllo bod gan eu Bwrdd Iechyd gynllun derbyniol ar

[2] **http://wihsc.southwales.ac.uk/midwaleshealthstudy/**
[3]Gohebiaeth – **Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd**, 12 Tachwedd 2014 (PDF 2MB)
[4] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru – Prifysgol De Cymru, **Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru – Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru**, Medi 2014 (tud. 108)

> gyfer y dyfodol, ac maen nhw'n bryderus iawn bydd colli eu hysbyty hefyd yn golygu gostyngiad yn y gwasanaeth."[5]

**12.** Fodd bynnag, nid oedd yn gwneud unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud â'r ardal. Cafodd yr achos busnes ar gyfer y ganolfan iechyd newydd ar safle'r ysbyty ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2015.

**13.** Ers hyn, mae'r pryderon y mae'r deisebwyr wedi'u mynegi yn ymwneud yn bennaf ag effaith cau'r ysbyty ar bobl leol ac ar y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau iechyd eraill yn yr ardal, yn enwedig gofal sylfaenol.

## Y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal ym Mlaenau Ffestiniog

**14.** Mae'r deisebwyr wedi datgan eu pryderon ynghylch y ddarpariaeth gofal iechyd yn Ffestiniog a'r ardaloedd cyfagos ar sawl achlysur, gan nodi bod y sefyllfa'n ddifrifol wael. Mynegwyd pryderon ynghylch gwasanaethau meddyg teulu, darpariaeth leol o ofal cam i lawr i bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a gwasanaethau mân anafiadau.

**15.** Roedd rhesymau gwreiddiol y Bwrdd Iechyd dros gau gwasanaethau yn Ysbyty Coffa Ffestiniog, yn enwedig gwlâu cleifion, yn dibynnu ar ddatblygu cefnogaeth well i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Ym mis Medi 2014, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrth y Pwyllgor y byddai'r gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref yn darparu mwy o ofal yng nghartrefi pobl ac yn osgoi'r angen i'w derbyn yn yr ysbyty.[6] Dyma oedd un o amcanion 'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid', ac mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

**16.** Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y deisebwyr ac eraill a oedd yn awgrymu y bu'n anodd cyflawni'r amcan hwn yn ymarferol oherwydd yr her o ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol wedi i nifer o feddygon teulu lleol ymddiswyddo, ac oedi o ran recriwtio meddygon newydd yn eu lle. Dywedodd y Cyngor Iechyd Cymuned wrth y Pwyllgor ym mis Ebrill 2017:

> "…Enhanced Care at Home has not delivered the promised replacement for the community hospital beds and the continuing issues with recruitment are making it extremely difficult to replace GP Principals who left the local practice following the closure of the hospital."[7]

---

[5] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru – Prifysgol De Cymru, **Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru – Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru**, Medi 2014 (tud. 108)
[6] Gohebiaeth – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at y Cadeirydd**, 14 Medi 2014 (PDF 128KB)
[7] Gohebiaeth – **Cyngor Iechyd Cymuned at y Pwyllgor**, 18 Ebrill 2017 (PDF 287KB)

**17.** Yn sgil yr anawsterau hyn, cymerodd y Bwrdd Iechyd yr awenau'n uniongyrchol ar gyfer y gwaith o reoli'r practis meddyg teulu ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwestiynu awgrymiadau bod cysylltiad uniongyrchol rhwng cau'r Ysbyty Coffa a'r heriau y mae gwasanaethau meddygon teulu lleol yn eu hwynebu, ond nid oes amheuaeth bod y materion hyn wedi gwaethygu pryderon lleol ynghylch pa mor ddigonol yw gwasanaethau iechyd yn y gymuned.

**18.** Hefyd, dywedodd y Cyngor Iechyd Cymuned wrth y Pwyllgor:

> "…there is a consistent concern from the CHC that BCUHB has failed to deliver the changes promised in the consultation "Healthcare in North Wales is Changing" in 2012."

**19.** Yn benodol:

> "…step up and step down care is not provided in the community as was promised in 2012. Instead, local people travel large distances to access such care."[8]

**20.** Nododd y Cyngor Iechyd Cymuned fod hyn yn wir yn achos gwasanaethau dementia a gofal diwedd oes.

**21.** Ar ôl cael gwybod bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar mewn ymateb i bryderon y deisebwyr, ysgrifennodd y Pwyllgor at AGIC i ofyn am ei chasgliadau ynghylch gofal iechyd yn ardal Ffestiniog. Yn ei hymateb ym mis Ionawr 2017, dywedodd AGIC, er bod prinder staff a'r defnydd o feddygon teulu locwm weithiau'n effeithio ar brofiad cleifion â meddygon teulu, fod yr adborth yn gyffredinol dda, gan nodi:

> "…[we are] broadly assured that the health board has taken and is continuing to take appropriate steps in ensuring that the services it provides in the Ffestiniog area are adequate."

**22.** Serch hynny, dywedodd AGIC:

> "…significant challenges remain for the health board in gaining the confidence of both the local and wider North Wales population."[9]

**23.** Tua'r un pryd, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrth y Pwyllgor ei fod wedi darparu buddsoddiad pellach yn ddiweddar i ymgysylltu'n well â'r gymuned a hyrwyddo

---

[8] Gohebiaeth – **Cyngor Iechyd Cymuned at y Pwyllgor**, 18 Ebrill 2017 (PDF 287KB)
[9] Gohebiaeth – **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru at y Cadeirydd**, 13 Ionawr 2017 (PDF 102KB)

gwasanaethau yn lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r rheini i'w darparu yn y Ganolfan Iechyd newydd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod hefyd yn bwriadu ymgymryd â rhaglen ymgysylltu ar draws y gogledd i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau a llunio 'strategaeth gwasanaethau clinigol' tymor hwy.[10]

### Y Ganolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol newydd

**24.** Adeg cau Ysbyty Coffa Ffestiniog, cytunodd y Bwrdd Iechyd i ddatblygu canolfannau adnoddau gofal sylfaenol mewn tri lleoliad yn y gogledd, gan gynnwys ym Mlaenau Ffestiniog.[11]

**25.** Ym mis Rhagfyr 2015, wedi i'r Bwrdd Iechyd lunio achos busnes, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid cyfalaf o £3.94 miliwn i Ganolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol newydd Blaenau Ffestiniog. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion am y gwasanaethau i'w darparu yn y Ganolfan mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2017.[12]

**26.** Fodd bynnag, mae'r deisebwyr wedi dweud yn y gorffennol bod y ddarpariaeth arfaethedig o wasanaethau yn “israddol”, ac nad yw'n cynnwys nifer o wasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn yr Ysbyty Coffa, gan gynnwys gwlâu i gleifion, gwasanaeth pelydr-X a gwasanaeth mân anafiadau, a bod hyn yn parhau i fod yn rhwystr hanfodol.

**27.** Agorwyd Canolfan Goffa Ffestiniog yn swyddogol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Tachwedd 2017.[13]

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

**28.** Wrth i'r Pwyllgor drafod y ddeiseb, cafwyd gohebiaeth gan Mark Drakeford AC, y cyn-Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Vaughan Gething AC, ei olynydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatgan y farn na fyddai'n ymyrryd oherwydd y cytunwyd ar y newidiadau i wasanaethau yn lleol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn dilyn proses ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol.

[10] Gohebiaeth – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at y Cadeirydd**, 6 Ionawr 2017 (PDF 3MB)
[11] Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Erthygl newydd **'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'**, 18 Ionawr 2013
[12] Gohebiaeth – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at y Cadeirydd – Atodiad 2**, 6 Ionawr 2017 (PDF 342KB)
[13] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, **'Yr Ysgrifennydd Iechyd yn agor canolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd gwerth £4 miliwn ym Mlaenau Ffestiniog'**, 30 Tachwedd 2017

**29.** Ym mis Gorffennaf 2014, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor na chyfeiriwyd cynigion y Bwrdd Iechyd ato, gan ddweud:

> "[I] am clear that I will not reopen any matters which have been agreed locally."[14]

**30.** Mewn gohebiaeth ddilynol, ysgrifennodd y Gweinidog, er na fu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r penderfyniad i gau'r ysbyty, ei fod o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i'r achos busnes am ganolfan adnoddau gofal sylfaenol ym Mlaenau Ffestiniog i gymryd lle'r ysbyty. Fel y nodwyd eisoes, cytunwyd ar gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015.

**31.** Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei roi o dan fesurau arbennig yn dilyn "pryderon difrifol sydd heb eu datrys ynghylch arwain, llywodraethu a chynnydd yn y Bwrdd Iechyd dros gyfnod".[15] Penododd y Gweinidog ei gynrychiolydd ei hun i oruchwylio gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd a datblygu fframwaith gwella ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r broses hon yn parhau i fynd rhagddi adeg ysgrifennu'r papur hwn.

**32.** Yng ngoleuni'r penderfyniad i roi'r Bwrdd Iechyd o dan fesurau arbennig, dywedodd y deisebwyr:

> "It is right and proper that the Minister should arrange for decisions taken by such a recognised defective healthcare organisation to be reviewed before they deliver irreparable patient harm."[16]

**33.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2015:

> "the decision to place the health board in special measures has no bearing on previous decisions relating to services in the Blaenau Ffestiniog area."[17]

**34.** Yn dilyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mis Mai 2016, ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau newydd at Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Awst 2016, gan nodi:

---

[14] Gohebiaeth – **Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd**, 27 Gorffennaf 2014 (PDF 1MB)
[15] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg **Mesurau arbennig yn cael eu gosod ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**, 8 Mehefin 2015
[16] Gohebiaeth - **Deisebydd at y Pwyllgor**, 14 Hydref 2015 (PDF 35KB)
[17] Gohebiaeth – **Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd**, 16 Rhagfyr 2015 (PDF 169KB)

> "The position remains the same as outlined by the previous Minister for Health and Social Services…and there is nothing further I can add to the response."[18]

**35.** Hefyd, rhannodd y deisebydd ymateb i ohebiaeth a gafodd oddi wrth Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, ym mis Tachwedd 2016. Roedd hyn yn ategu safbwynt Llywodraeth Cymru ymhellach, sef:

> "we do not intend to reopen this issue. It remains as issue for Betsi Cadwaladr University Health Board and any outstanding concerns [the petitioners] have must be resolved locally."[19]

## Datblygiadau diweddar

**36.** Yn ystod cyfnodau olaf y Pwyllgor o drafod y ddeiseb, cychwynnwyd proses graffu ar wahân gan Bwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd i ddarpariaeth iechyd ar gyfer trigolion Blaenau Ffestiniog a'r cyffiniau. Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor hwnnw ar 4 Medi 2017, a chymerwyd tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog. Yn dilyn hyn, cytunodd y Pwyllgor Craffu Gofal ar chwe argymhelliad ar gyfer y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Cais am adroddiad ar unwaith gan asiantaeth annibynnol ynghylch y ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.
- Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn monitro gwybodaeth a data yn rheolaidd mewn perthynas ag effeithiolrwydd y gwasanaethau iechyd presennol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion, ac yn ymrwymo i addasu neu newid darpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddiffygion o ran ymgysylltu ac ymgynghori yn y gorffennol er mwyn gwella trefniadau yn y dyfodol.
- Bod Aelodau'r Cabinet dros yr Amgylchedd a Gofal yn comisiynu asesiad ynghylch pa mor gyfleus a hygyrch yw gwasanaethau iechyd drwy drafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn nalgylch Ysbyty Alltwen.
- Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd yn gweithio ar y cyd ac yn cymryd camau ymarferol priodol i recriwtio staff

---

[18] Gohebiaeth – **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at y Cadeirydd**, 26 Awst 2016 (PDF 91KB)
[19] Gohebiaeth – **Y Prif Weinidog at y deisebydd**, 9 Tachwedd 2016 (PDF 141KB)

gofal ac iechyd er mwyn sicrhau bod timau llawn ar waith i gynnal gwasanaethau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ar draws y sir.[20]

**37.** Mae'r Pwyllgor ar ddeall y gofynnwyd am ymatebion gan y Bwrdd Iechyd a'r aelodau perthnasol o gabinet Cyngor Gwynedd, a bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn bwriadu ystyried yr ymatebion ymhellach yn gynnar yn 2018.

## CASGLIADAU

**Casgliad 1.** Mae'n amlwg o'n gwaith o drafod y ddeiseb hon bod angen gwneud ymdrechion pellach i adeiladu pontydd rhwng rhannau o'r gymuned leol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gallai agor Canolfan Goffa Ffestiniog helpu i roi hwb i hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r Ganolfan hon wedi mynd i'r afael â'r rheswm sylfaenol y tu ôl i'r ddeiseb, sef darparu gwlâu cleifion, gwasanaeth mân anafiadau a chyfleusterau pelydr-X ym Mlaenau Ffestiniog. Serch hynny, rydym yn gobeithio y gall y Ganolfan newydd helpu i feithrin perthynas well a gwella bodlonrwydd â lefel y gofal iechyd a ddarperir yn y gymuned.

**Casgliad 2.** Rydym o'r farn mai'r broses graffu leol sydd bellach yn mynd rhagddi drwy Bwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd yw'r ffordd fwyaf priodol o drafod y materion sy'n codi yn y ddeiseb a mynd i'r afael â hwy. Rydym yn cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw ac yn annog pawb i'w hystyried yn ofalus. Yn benodol, rydym yn cytuno mai'r ffordd orau o bosibl o ateb pryderon y gymuned leol fyddai'r argymhelliad i gomisiynu adroddiad annibynnol ynghylch y ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.

[20] Pwyllgor Craffu Gofal, Cyngor Gwynedd, **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL** |
| DYDDIAD | **30 IONAWR 2018** |
| TEITL | Cynllun Alltwen – Diweddariad ar y cynnydd a datblygiad y gwaith |
| AWDUR | Mari Wynne Jones |
| AELOD CABINET | Y Cynghorydd W Gareth Roberts |

**Cefndir**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 17 Tachwedd 2016, cyflwynwyd adroddiad yn deillio o ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor i'r gwaith o integreiddio gwasanaethau gofal ac iechyd trwy Gynllun Alltwen. Fel rhan o'r adroddiad, cyflwynwyd 10 argymhelliad ac fe gyflwynodd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eu hymateb i'r argymhellion yn y Pwyllgor.

Bwriad yr adroddiad yma yw amlinellu y cynnydd a wnaed os hynny o ran gweithredu'r cynllun ac hefyd y camau a gymerwyd i ymateb i argymhellion yr ymchwiliad.

**Argymhelliad 1: Bod model gweithio integredig Cynllun Alltwen yn cael ei ymestyn ar draws y Sir ar fyrder**

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 bellach yn weithredol ac mae'r timau i gyd eisoes wedi dechrau gweithio mewn ffordd wahanol. Mae enghreifftiau da o'r gwahanol dimau sydd yn dangos bod y gweithwyr yn meddwl mewn ffordd wahanol. Mae tystiolaeth bod gweithwyr yn edrych ar gryfderau unigolion a'u teuluoedd yn y lle cyntaf gan drefnu pecynnau gofal dim ond pan fo hynny yn hollol angenrheidiol.

Mae'r timau o staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn y broses o drosglwyddo i mewn i'r strwythur ardal newydd.

Mae gweithlu yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant wedi eu rhannu i 5 hwb ardal. Mae Arweinwyr Ardal ac Ymarferwyr Arweiniol wedi eu penodi ar gyfer y 5 ardal ac yn weithredol ers Mai 2017. Mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Arweinydd Trawsffurfio i arwain ar ymledu'r gwaith i'r 5 ardal.

Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i 5 hwb ar draws y Sir:

- Ardal Bangor
- Ardal Caernarfon

- Ardal Llyn
- Ardal Eifionydd/Gogledd Meirionnydd
- Ardal De Meirionnydd

Bydd gan y swyddi leoliad gwaith penodol, ond bydd disgwyl i bob swyddog weithio'n hyblyg er mwyn cefnogi safleoedd eraill, lle bo hyn yn hyfyw'n weithredol ac yn broffesiynol, i sicrhau darpariaeth gwasanaeth diogel ac effeithiol.

Mae dod o hyd i leoliadau addas i gartrefu'r timau integredig wedi bod yn sialens mewn rhai ardaloedd. Bellach mae lleoliadau wedi eu hadnabod ac mae 4 tîm eisoes wedi eu lleoli o fewn yr ardaloedd newydd. Bydd Tîm Bangor yn symud i leoliad ym Mharc Menai yn y flwyddyn newydd.

Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal i weithlu'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol ac mae cyfres o weithdai wedi eu cynnal i gefnogi Arweinwyr y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i weithredu newidiadau a chynnal momentwm.

**Argymhelliad 2: Blaenoriaethu cynlluniau i wella dealltwriaeth ac ymrwymiad uwch reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i ddulliau gweithio Cynllun Alltwen.**

Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i'r egwyddor o weithio'n integredig.

Bwrdd Gwasanaeth Integredig Gwynedd sydd yn gyfrifol am lywodraethiant cyffredinol y timau. Aelodaeth y Bwrdd yw:

- Ffion Johnstone (Cyfarwyddwr Rhanbarth Gorllewin BIPBC)
- Eleri Roberts (Cyfarwyddwr Rhanbarth Cynorthwyol – Gwasanaethau Cymunedol Gorllewin BIPBC)
- Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol CG)
- Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant CG)

Mae Uwch Reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau integredig sy'n seiliedig ar gynllun Alltwen ac wedi ymrwymo i gyfarfodydd cynllunio misol.

Roedd Uwch Reolwr Oedolion Gwynedd yn rhan o'r gwaith peilot dechreuol yn Alltwen cyn gadael ar gyfnod mamolaeth ac felly gyda dealltwriaeth o'r dulliau gweithio. Y mae wedi ymrwymo i gyfarfodydd wythnosol gyda'r Arweinwyr Ardal.

Mae Uwch Reolwr Trawsffurfio Cyngor Gwynedd, Uwch Reolwr Oedolion a'r Arweinydd Trawsffurfio o'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i raglen ddwys i gefnogi'r 5 tîm ardal i weithredu dulliau gweithio cynllun Alltwen rhwng y flwyddyn newydd a'r Hydref 2018.

**Argymhelliad 3: Dynodi Uwch Reolwyr o'r ddau sefydliad i fod yn gyfrifol am symud rhwystrau penodol i gyflawni rhai elfennau o Gynllun Alltwen sy'n cael ei hadnabod gan Aelodau Tîm Alltwen.**

Yr Arweinydd Trawsffurfio fydd yn arwain y broses trawsnewid drwy greu'r pum tîm integredig effeithiol gan sicrhau cysondeb mewn ymarfer a dull, a sicrhau bod unrhyw anawsterau neu rwystrau a brofir yn cael eu trin yn effeithiol. Bydd y swyddogaeth yn golygu cydlynu timau prosiect lleol, gan sicrhau bod yr holl bersonél sydd ynghlwm yn deall eu swyddogaethau'n llwyr, ac yn eu cyflawni'n effeithiol. Bydd yr Arweinydd Trawsffurfio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Reolwr Oedolion.

Mae'r ffordd newydd o weithredu yn rhoi pwyslais ar gefnogi'r timau i geisio dileu rhwystrau yn lleol. Rôl yr Arweinyddion yw cefnogi'r timau i adnabod a dileu rhwystrau eu hunain ac i weithredu ar y rhwystrau na ellir eu diwallu yn lleol.

Mae rhwystrau na ellir eu datrys yn cael eu huchafu i uwch swyddogion i'w gwaredu sydd yn cynnwys Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Gyfarwyddwraig Gorfforaethol; Cyfarwyddwraig Rhanbarth Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol a'r Gyfarwyddwraig Rhanbarth Gorllewin Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

**Argymhelliad 4: Bod Uwch Reolwyr cymwys yn llenwi bylchau dros dro er mwyn cyfarch y prinder staff/swyddogion rheng flaen i gynnal y gwasanaeth craidd mewn rhai ardaloedd.**

Os ydyw'r Gwasanaeth am sicrhau eu bod yn cyflawni eu pwrpas, bydd angen sicrhau fod adnoddau staffio digonol o fewn y timau adnoddau cymunedol integredig i gynnal y sgyrsiau cychwynol pwysig gyda dinasyddion Gwynedd. Mae tystiolaeth yn nodi pwysigrwydd cael y sgyrsiau cywir gydag unigolion a neilltuo digon o amser i sicrhau ein bod yn cydweithio gydag unigolion i adnabod beth sy'n bwysig iddynt a sut allant adeiladu ar eu cryferau eu hunain a manteisio ar adnoddau ataliol yn y gymuned er mwyn cwrdd a'r amcanion personol mewn modd sydd yn sicrhau ein bod yn cael y datrysiadau cywir y tro cyntaf. Trwy roi buddsoddiad amser yn y sgwrs gychwynol, bydd yn arwain at leihad yn y galw a'r angen am wasanaethau statudol i'r dyfodol.

Mae strwythur staffio newydd a rhaniad staff ar gyfer y 5 tîm ardal wedi ei gytuno ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r gweithlu. Rydym wedi llwyddo i benodi i swyddi gwag ar sail cytundebau parhaol. Mae rhai bylchau yn parhau o fewn timau o ganlyniad i fylchau dros dro (cyfnodau mamolaeth).

Mae recriwtio i amrediad o swyddi o fewn y maes iechyd a gofal yn heriol iawn mewn rhai ardaloedd o Wynedd. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol wedi profi

trafferthion recriwtio i swyddi gofalyddion, Nyrsys Cymunedol a Gweithwyr Cymdeithasol gwag yn Ne Meirionnydd. Bydd y Gwasanaeth yn cyfrannu i Ymchwiliad y Pwyllgor Craffu i'r maes yma yn ystod 2018.

Mae cynllun Cysylltwyr Cymunedol yn cael ei dreialu yn yr ardaloedd lle mae swyddog o'r trydydd sector wedi eu lleoli gyda'r timau integredig. Yn ogystal, bydd y gwasanaeth Cynghori ac Asesu Oedolion ar ei ffurf bresennol yn dod i ben ddiwedd Ionawr 2018 a bydd y gweithlu presennol yn cael eu rhannu i'r 5 tîm ardal. Yn ogystal, bydd cydleoli gyda gweithlu y Bwrdd Iechyd yn arwain at lai o ddyblygu. Bydd yr uchod yn atgyfnerthu y gweithlu yn y timau.

**Argymhelliad 5: Dod a'r cytundeb cyfredol i ben gyda'r arbenigwyr allanol a phenodi arbenigwyr allanol a phenodi arbenigwr addas i gynnal Arolwg a Holiadur boddhad cwsmer gyda Defnyddwyr a dadansoddi'r atebion.**

Mae'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd wedi bod yn defnyddio arbenigedd cwmni Vanguard sydd yn arbenigo mewn gwaith sustemau. Comisiynwyd ymgynghorydd i gefnogi gyda rhaglen hyfforddiant i'r gweithlu. Nid oes cytundeb pellach i fod yn defnyddio arbenigedd y cwmni ond defnydd achlysurol a'r arbenigedd fel bo angen.

Mae Uwch Reolwr Trawsffurfio Cyngor Gwynedd yn y broses o gwblhau cwrs gweithio mewn dull sustemau. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei arbenigedd i gefnogi y newid i'r dyfodol. Yn ogystal, mae'r Uwch Reolwr Oedolion wedi cwblhau cwrs corfforaethol Arweinyddiaeth Ffordd Gwynedd ac mae'r Arweinwyr Ardal yn y broses o gwblhau'r un cwrs.

Mae'r cwestiwn yn codi pa mor effeithiol ydi holiaduron o ran faint o bobl wnaiff ymateb. Mae'r Adran yn edrych ar ffyrdd eraill o gofnodi boddhad cwsmer megis paratoi fideos byr, creu 'pen pictures' sydd yn nodi'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud i fywydau unigolion, ymweld a thrafod wyneb yn wyneb.

Fel rhan o'r gwaith yn Alltwen, sefydlwyd mesurau newydd sydd yn mesur a ydi'r timau integredig yn cwrdd â'u pwrpas o 'Fy helpu i fyw fy mywyd fel rwyf yn ei ddymuno'. Mae'r mesuryddion yn rhoi pwyslais ar lais a barn yr unigolyn ac yn rhoi cyfle iddynt nodi eu barn am y gwasanaeth ac os ydynt yn teimlo eu bod yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion personol.

Mae adrodddiadau yn cael eu llunio allan o'r ymatebion sydd yn helpu'r Arweinyddion i werthuso ffyrdd newydd o weithio, adnabod anghenion sydd ddim yn cael eu diwallu a gwella yn barhaus.

Mae gwaith pellach angen ei wneud ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau cofnod o foddhad y cwsmer drwy eu holl daith gofal, nid yn unig ymyrraeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd yr Uwch Reolwyr a'r arweinydd trawsffurfio yn cefnogi'r ardaloedd i ddatblygu'r gwaith yma ymhellach fel rhan o'r rhaglen waith ddwys gyda'r ardaloedd.

**Argymhelliad 6: Asesu'n ofalus y mesuryddion cyfredol gan osod gwaelodlin a tharged ar gyfer pob un.**

Fel rhan o'r rhaglen waith i gefnogi ymledu dull gweithio Alltwen i 5 ardal, bydd angen adolygu'r mesurau ansoddol sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r ffordd newydd o weithio. Bydd y mesurau yn esblygu ac addasu dros amser. Fel sydd wedi ei nodi yn 4:5, mae'r mesurau newydd yn rhoi pwyslais ar lais yr unigolyn ac yn symud i ffwrdd o ddata meintiol a thargedau adrannol gan roi pwyslais ar fesuryddion ansoddol sydd yn nodi targedau personol unigolion.

Er bod y mesurau yn seiliedig ar y dysgu o'r gwaith yn Alltwen, daeth yn amlwg nad oedd y gweithlu yn ymrwymedig iddynt gan nad oeddynt yn deall eu gwerth ac ychydig o ddefnydd o'r mesuriadau oedd yn cael eu gwneud.

Mae sesiynnau 'collaborative conversations' wedi eu cynnal ar gyfer y gweithlu integredig sydd yn gwella eu dealltwriaeth ac yn atgyfnerthu'r angen i fesur sut ydym yn gwybod ein bod yn cyflawni beth sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ogystal, mae'r Uwch Reolwr Trawsffurfio wedi cynnal gweithdy ar fesurau gyda'r Arweinyddion gyda'r bwriad o wneud gwaith pellach gyda phob ardal yn unigol.

**Argymhelliad 7: Dynodi Uwch Reolwr i wneud asesiad o drefniadau dydd i ddydd o safbwynt delio gyda galwadau ffôn Cynllun Alltwen er mwyn arbed colli galwadau a gwella Cyfathrebu gan gynnwys manylion a chymhariaeth am drefniadau rhannu gwybodaeth Cynghori ac asesu ymhob ardal o Wynedd**.

Mae'r Uwch Reolwr Busnes yn gyfrifol am sicrhau trefniadau cefnogaeth dydd i ddydd gweinyddiaeth. Bellach, mae cefnogaeth weinyddol llawn amser yn Alltwen. Bydd cefnogaeth weinyddol yn cael ei ddarparu ar gyfer y 5 hwb ardal. Mae'r newidiadau yn rhoi cyfleon i fanteisio ar ddatblygiadau technoleg i hwyluso gwaith ynghyd ac ail edrych ar brosesau gwaith i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y dull mwyaf effeithiol ac yn sicrhau gwell mynediad i'r cyhoedd.

Mae sesiynau staff wedi eu cynnal i drafod datblygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yng Ngwynedd. Neges glir o'r sesiynau oedd pa mor allweddol a chyfoes yw sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n wynebu'r maes. Mae'r rhaglen waith sy'n cael ei ddatblygu yn rhoi ffocws ar sicrhau y gellid cynnig gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar lefel lleol gan nodi hefyd yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu dros y misoedd nesaf. Bydd y gwasanaeth Cynghori ac Asesu Oedolion yn dod i ben yn ei ffurf bresennol ddiwedd Ionawr a bydd y gwasanaeth IAA yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol gan y timau ardal.

Yn benodol o ran ceisio cynyddu'r ffocws ataliol a lleol, mae rôl y 'Cysylltwr Cymunedol' yn cael ei dreialu o fewn tri o'r Timau Cymunedol Integredig. Mae'r rôl yn cynnig cyfle i ystyried manteision plethu adnodd o'r trydydd sector o fewn y timau ac yn ddatblygiad o hyn sydd ar waith yn barod yn ardal Alltwen (swyddog gofal a thrwsio yn rhan o'r tîm) a rôl y 'social prescriber' (Mantell Gwynedd) yn Arfon.

Un elfen o rol y Cysylltydd Cymunedol yw cyfoethogi dealltwriaeth aelodau o’r tîm ynglŷn â’r cyfleoedd sy’n bodoli o fewn cymunedau, yn ogystal hefyd a sbarduno gweithgarwch cymunedol sy’n hybu llesiant trigolion.

**Argymhelliad 8: Darparu gwasanaeth integredig llawn rhwng 8:00 a 20:00 dros 7 diwrnod yr wythnos.**

Mae cytundeb bod angen ymestyn y ddarpariaeth dros 7 diwrnod. Fel rhan o ail strwythuro’r gwasanaeth Oedolion Iechyd a Llesiant, adolygwyd swydd ddisgrifiadau'r gweithlu i gynnwys:

“Gweithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol yn ôl yr angen”. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ymestyn oriau agor y gwasanaeth yn ystod yr wythnos ynghyd a gweithio penwythnosau. Bydd disgwyliad i ddeilydd y swydd fod yn rhan o unrhyw drefniadau gaiff eu sefydlu ar sail rota”

Byddai’n fwy buddiol ymestyn y gwasanaeth i 7 diwrnod o 9 dan 5 yn gyntaf er mwyn gallu mesur y galw ar y gwasanaeth yn ystod yr oriau craidd.

Rhaid bod yn ofalus fod unrhyw newid mewn oriau ddim yn amharu ar y gallu i ymateb yn effeithiol yn ystod oriau craidd ac yn cyd-fynd a’r egwyddor o gadw perchnogaeth dros achos. Bydd yn sialens gweithredu ymestyniad mewn oriau a dyddiau gwaith o fewn y gweithlu presennol heb adnoddau staffio ychwanegol. Mae gan weithwyr yr awdurdod lleol lwyth gwaith penodol ac yn gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol sy’n cyd-fynd a’r egwyddor o gydlynydd achos a chadw perchnogaeth. Ystyriaeth arall sydd angen cadw mewn cof ydi trefniadau gweithio yn unig a diogelwch staff.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi wynebu heriadau yn ymestyn eu gwasanaeth nyrsio ardal o 8yb - 8yh. Yn bennaf oherwydd nad oes dim cynnydd yn y lefelau staffio. Mae’r nyrsys cymuned yn gweithio dros 3 shifft. Rhai dyddiau o 8 tan 8, 8 tan 4pm a 12 tan 8pm. Maent yn nodi fod trefn shift yn gwanhau’r gwasanaeth ar gyfnodau penodol ac yn golygu mwy o deithio er mwyn ymateb i ardal ddaearyddol fwy. O ran y math o waith y maent yn ei wneud rhwng 5 a 8pm mae yn gyfuniad o waith wedi ei drefnu ymlaen llaw a galwadau i weld pobl hollol ddieithr pan fyddent yn cael galwad gan y gwasanaeth GP allan o oriau.

O ran ymestyn i weithio 8:00 tan 20:00 mae’r staff ar y ward yn gwneud hyn yn barod ac yn gweithio 3 diwrnod x 12 awr. Fe fyddai rhai yn gweld hyn yn ddeniadol o ran bod rhywun wedi gorffen gwneud ei oriau am yr wythnos mewn tridiau. Mae hyn yn codi problemau o ran parhad y gofal (continuity) gan y gall aelodau o staff fod i ffwrdd o’i gwaith am ddyddiau rhwng shifftiau sy’n golygu bod yna ddiffyg perchnogaeth tuag at y cleifion. Gall hyn olygu llawer mwy o ‘hand offs’ i’r cleifion a teuluoedd a gall achosi problemau o ran diffyg cyfathrebu rhwng y staff .

Wedi sefydlu’r Timau Adnodd Cymunedol Integredig o fewn y 5 ardal, bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal i weld a oes digon o dystiolaeth a chyfiawnhad i ymestyn oriau a dyddiau y gwasanaeth. Rhaid cael eglurdeb ynglŷn â pha sgiliau sydd ei angen i gwrdd â’r angen ym mhob

ardal wedi oriau craidd. Caed cais yn ddiweddar i’r gwasanaeth ystyried cyflogi gofalyddion cartref i weithio dros nos. Gwnaed ymchwil i’r galw ac angen ac roedd y dystiolaeth yn nodi fod yna angen am weithiwr gyda sgiliau arbenigol nyrs i ymateb ac na fyddai gofalyddion wedi bod yn addas.

**Argymhelliad 9: Dynodi Uwch Reolwr i gynllunio a darparu un system electronig integredig ar gyfer holl drafodion Cynllun Alltwen**.

Mae’r system rheoli achosion cenedlaethol ar gyfer y maes gofal ac iechyd cymunedol (WCCIS) yn galluogi rhannu cofnodion o fewn timau integredig. Rydym wedi ymweld â thimau integredig ym Mhowys ac wedi gweld tystiolaeth o hyn ar waith. Mae’r Cyngor wedi dechrau defnyddio WCCIS ers mis Awst 2017. Mae’r Bwrdd Iechyd (Betsi Cadwaladr) wedi arwyddo cytundeb gyda darparwr y system, ond hyd yma nid yw wedi cyhoeddi dyddiad ar gyfer ei mewnosod. Mae’r Uwch Reolwr Trawsffurfio yn trafod gyda’r Cyfarwyddwr Ardal a’r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gwybodeg o fewn y Bwrdd Iechyd, er mwyn ceisio sicrhau bod y timau integredig (fel tîm Alltwen) yn cael budd o WCCIS mor fuan â phosib.

**Argymhelliad 10: Sefydlu trefn o adrodd yn wythnosol ar wlâu preswyl , nyrsio ac EMI sydd ar gael ymhob ardal o Wynedd**

Mae adroddiadau ynghylch argaeledd gwlau yn yr ardal yn cael ei rannu gyda’r Arweinyddion Ardal, Uwch Swyddogion Cyngor Gwynedd a cydweithwyr y Bwrdd Iechyd yn wythnosol. Mae’r adroddiadau yn rhyddhau amser swyddogion i ymateb yn amserol pan yn ceisio dod o hyd i gartrefi gofal addas ac yn hwyluso cydweithio rhwng asiantaethau.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD** | **30/01/18** |
| **TEITL** | **ADRODDIAD YMCHWILIAD GOFALWYR DI-DÂL**<br><br>**Dolen i'r adroddiad:-**<br>**https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=131&mid=1711&ver=4&**<br>**(Eitem 7)** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS** |
| | |

**Cyflwyniad a chyd-destun**

1. Testun yr ymchwiliad oedd gweld pa fath o gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd. Mae'n amlwg bod y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r mudiadau Trydydd Sector, sy'n weithredol yn y maes yma'n llwyddo i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Ngwynedd, ond bod pwysau cynyddol ar y gwasanaethau. Mae'r arbedion a thoriadau wedi cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethu atalio allweddol a'r lefel o wasanaethau sy'n ddisgwyliedig gan ofalwyr.

**Ein Gweledigaeth i Wynedd**

2. Gweledigaeth dros ofalwyr yng Ngwynedd yw cymdeithas sydd yn adnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dâl.

3. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo, ynghyd â'i bartneriaid i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau a fydd yn gwella cefnogaeth i ofalwyr yng Ngwynedd.

4. Mae gweledigaeth Gwynedd i'r dyfodol yn canolbwyntio ar gamu ymlaen a galluogi i annog cefnogaeth i'r unigolyn yn ei gymuned. Golyga hyn bod y cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau a beth y medrant ei gyflawni ar eu pennau eu hunain neu gyda chymorth eu teuluoedd a chymdogion.

**Proses yr adolygiad**

5. Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Ymchwiliad Craffu er mwyn casglu tystiolaeth gan gynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector, ac fe gyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan rai sefydliadau yn ogystal.

6. Ystyriwyd sylwadau gan rai aelodau a oedd wedi’u datgan wrthynt gan unigolion yn y gymuned am eu profiadau hwy o fod yn ofalwyr ac am y gefnogaeth a gafwyd can y gwasanaethau.

7. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiadau perfformiad a mesuryddion a dogfennau a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Oedolion, Plant ac Iechyd i adnabod a chofnodi’r wybodaeth am ofalwyr.

8. Edrychwyd ar wefannau’r Cyngor a sefydliadau Trydydd Sector o safbwynt gofalwyr hŷn ac ifanc ynghyd â chyhoeddiadau.

9. Roedd yn amserol iawn bod Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr y Cyngor wedi cynnal holiadur a ddosbarthwyd i dros fil o ofalwyr yn ystod mis Medi 2016 a bod y dadansoddiad o’r canlyniadau ar gael ym mis Chwefror 2017. Roedd hyn yn rhoi darlun dai i aelodau’r ymchwiliad o farn defnyddwyr gwasanaeth.

**Crynodeb o’r Prif Ganfyddiadau**

10. Isod, ceir crynodeb bras o ganfyddiadau allweddol yr ymchwiliad:-

- *Mae deall arwyddocâd adnabod pwy sy’n ofalwr yn hanfodol. Un o’r nodweddion am ofalwyr yw nad yw nifer ohonynt yn galw eu hunain yn ofalwyr. Dylid nodi bod sefyllfa gofalu yn unigryw i bob gofalwr, a bod diffyg cefnogaeth yn gallu cael effaith ddrwg iawn ar iechyd gofalwyr a’u gallu i ofalu.*

- *Gwelir bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ardaloedd Bangor a De Meirionnydd yn gyffredinol ac yn fwy sylweddol rhwng wardiau/LSOAs penodol. Yn ogystal, mae’n ymddangos o’r wybodaeth a ddaeth i law ac o’r trafodaethau gyda swyddogion ac ymarferwyr yn y Grwpiau Ffocws nad oes gan y Cyngor wybodaeth ddibynadwy ynglŷn â nifer gofalwyr sy’n byw yn y Sir. Heb wybod maint yr angen, nid oes bosibl ei ddiwallu.*

- *Nid oedd yn glir i’r aelodau pam bod y mesurydd o asesiadau gofalwyr yn parhau i berfformio’n wael yng Ngwynedd, ond mae rhai rhesymau posibl: mae’r data yn cael ei gasglu a’i gofnodi’n wahanol ar draws Cymru; er bod asesiadau’n cael eu cynnal, nid ydynt yn cael eu cofnodi; mae’r swyddogion yn blaenoriaethu gwaith arall pwysicaf; prinder amser gan swyddogion i gofnodi; diffyg eglurder am y drefn a dulliau cofnodi e.e. bod asesiadau Gwynedd yn fwy trylwyr ac yn cymryd hirach na rhai siroedd eraill.*

- *Nodwyd bod darpariaeth gynhwysfawr o wybodaeth i ofalwyr ar ffurf electronig ac ar bapur. Yn ogystal, fe wnaed sylwadau bod casglu, rhannu a diweddaru gwybodaeth am ddigwyddiadau mwy lleol fel gweithgaredd clybiau a chymdeithasau'n gallu bod yn hynod werthfawr i ofalwyr a'r rhai maent yn gofalu amdanynt, ond bod cyflawni hyn yn effeithiol yn anodd. Mae tystiolaeth glir bod y mwyafrif o ofalwyr wedi cael y wybodaeth fwyaf defnyddiol gan berson arall. Mae cael yr wybodaeth iawn ar yr amser iawn yn hanfodol i lesiant gofalwyr, ond un o'r anawsterau o safbwynt rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr yw nad ydi gofalwyr yn aml yn adnabod eu hunain fel gofalwyr.*

- *Mae'n rhaid ystyried yr angen i ofalwyr gael seibiant yn rheolaidd; mae hyn yn hanfodol er mwyn i ofalwr fedru cynnal ei iechyd a llesiant ei hunan ac er mwyn iddo/iddi gael bywyd tu allan i'w rôl gofalu. Gall cyfnod ysbaid fod yn ychydig oriau, ddiwrnodau neu wythnosau, a gall gael ei ddarparu gan wasanaethau statudol, trydydd sector, ffrindiau a theuluoedd. Darperir amrywiaeth o gyfnodau ysbaid yng Ngwynedd, ond, er bod y cyfleoedd ysbaid a gynigir yn bwysig a gwerthfawr iawn, mae nifer o broblemau: prinder ariannol gan y sector statudol; y person sy'n derbyn y gofal yn amharod i ryddhau'r gofalwr; prinder gweithwyr gofal yn arbennig ym Meirionnydd; prinder siaradwyr Cymraeg; diffyg hyblygrwydd ar fyr rybudd; prinder arbennig o ran rhyddhau gofalwyr sy'n cefnogi pobl efo dementia a phroblemau iechyd meddwl.*

- *Roedd aelodau'r ymchwiliad yn bryderus y gallai'r Cyngor fod yn creu problemau ariannol difrifol i'r dyfodol drwy beidio buddsoddi'n strategol mewn gwaith ataliol ym maes gofalwyr. Awgrymwyd bod angen edrych yn fanylach a gwneud asesiad ystyrlon o effaith lleihau cyllidebau ym maes gofalwyr di-dâl o safbwynt cynnydd mewn gwariant i'r Cyngor yn ogystal â'r effaith ar ofalwyr.*

11. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gofalwyr Di-dâl i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 17eg Mawrth 2017.Derbyniwyd a chymeradwywyd yr argymhellion cyfan ond gofynnwyd i'r Aelodau Cabinet roi blaenoriaeth i ddatblygu Argymhelliad 4, Argymhelliad 6 ac Argymhelliad 8. Penderfynwyd hefyd cadw golwg ar ddatblygiadau'r argymhellion.

12. Darperir argymhellion yr Ymchwiliad a diweddariad arnynt yn y tabl isod.

**Argymhellion a Chynllun Gweithredu'r Ymchwiliad**

| | **Argymhelliad** | **Diweddariad ar ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| ***1.*** | ***Adnabod Gofalwyr – bod yr Aelod Cabinet yn comisiynu gwaith manwl gyda'n partneriaid i gytuno sut i*** | Un o'r amcanion Strategaeth Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn yw gwella adnabyddiaeth o ofalwyr cudd o bob oed |

| | | |
|---|---|---|
| | ***adnabod a chofnodi gofalwyr 'cudd' yng Ngwynedd.*** | drwy eu hadnabod eu hunain fel gofalwyr. Rydym wedi dechrau gweithio gyda'n partneriaid yn iechyd a'r trydydd sector i godi adnabyddiaeth o ofalwyr mewn meddygfeydd a fferyllfeydd. Bydd Gofalwyr Cymru yn penodi swyddog yn y Gogledd gyda dyletswydd hybu adnabyddiaeth gofalwyr cudd drwy weithio gyda gwirfoddolwyr – swydd 3 blynedd. Cytunodd cyfarfod rhanbarthol ddechrau mis Rhagfyr 2017 bod angen ystyried profiad gofalwyr cyn cyrraedd gwasanaethau gofalwyr ac ar adegau allweddol. Oherwydd hynny bwriedir gwneud gwaith i fapio taith gofalwyr yng ngwahanol siroedd y gogledd.<br>Penderfynwyd edrych ar sut yr ydym yn cofnodi faint o ofalwyr sy'n cael gwasanaeth gennym yng Nghyngor Gwynedd, boed yn asesiad 'Beth sy'n bwysig' neu yn wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). |
| ***2.*** | ***Asesiadau a Chofnodi - bod yr Aelod Cabinet yn cynnal gwaith gyda'n partneriaid mewn gofal ar draws y Gogledd i gysoni dulliau cynnal asesiadau a chofnodi.*** | Mae gwaith hwn yn rhan o waith y Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Gofalwyr.<br>Mae'r mater yn cael ei godi hefyd mewn cyfarfodydd Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCSG)<br>Mae'r diffyg presennol mewn cysondeb dulliau cynnal asesiadau a chofnodi a hefyd gwahaniaethau am beth sydd yn cyfri fel asesiad wedi cael ei amlygu yn y papurau briffio 'Tracio'r Ddeddf' gyda ffigurau wedi eu seilio ar ddiffiniadau gwahanol pob awdurdod.<br>Cytunwyd yn rhanbarthol bod angen i'r asesiad gofalwyr ganolbwyntio ar y sgwrs ynglŷn â beth sydd o bwys i'r gofalwr, a phwysig hefyd fod yn cael cyfle am sgwrs ar ei ben ei hun gyda'r asesydd. Mae'n pryderu bod rhai gofalwyr dal i feddwl fod 'Asesiad Gofalwr' yn asesu eu gallu i ofalu ac ansawdd eu gofal.<br>Penderfynwyd adolygu sut mae anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu o fewn y Cyngor. Mae angen canllaw newydd i staff yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

| | | |
|---|---|---|
| ***3.*** | ***Adborth gan Ofalwyr – bod yr Aelod Cabinet yn defnyddio'r wybodaeth yn yr holiaduron a dderbyniwyd gan ofalwyr i adnabod cryfderau, gwendidau, rhwystrau a chyfleoedd i wella.*** | Mae adborth gan ofalwyr yn yr holiaduron wedi cael ei gynnwys yn Strategaeth Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn (a'r cynllun gweithredu) ac yn llywio'r gwaith presennol y Swyddog Cefnogi Gofalwyr Oedolion a Phlant.<br>Anfonwyd holiadur arall at 500 o ofalwyr (drwy gydweithio gyda Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr) i gael ei ddychwelyd erbyn canol mis Rhagfyr. Bydd modd cael data o'r holiaduron hyn erbyn diwedd mis Ionawr 2018.<br>Mae gan Is-grŵp Gwynedd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn ddau aelod sy'n ofalwyr.<br>Anfonir holiadur at ofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl ddechrau Ionawr 2018. |
| ***4.*** | ***Gwybodaeth a Chynghori***<br>• ***Datblygu trefniadau Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu (Information, Advice and Assessment - IAA) cydlynu ar draws y sir ar fyrder***<br>• ***Codi ymwybyddiaeth Aelodau, swyddogion a staff rheng flaen y Cyngor am wasanaethau cefnogol i ofalwyr***<br>• ***Fferyllwyr i rannu taflen gofalwyr wrth ddosbarthu ffisig***<br>• ***Meddygfeydd i rannu taflenni wrth roi presgripsiwn***<br>• ***Ysgolion i rannu taflenni i ddisgyblion.*** | • Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). Er mwyn sicrhau gwasanaeth IAA cynhwysfawr ac effeithiol mae nifer o agweddau gwahanol yn derbyn sylw. Mae newidiadau ar y gweill o ran creu 'drws ffrynt' i wasanaethau ar lefel lleol, sy'n manteisio ar y cydleoli gyda'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â threialu rôl y 3ydd Sector (Cysylltydd Cymunedol) o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Pwrpas rôl y Cysylltydd Cymunedol yw cyfoethogi dealltwriaeth aelodau o'r tîm ynglŷn â'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn cymunedau, yn ogystal hefyd a sbarduno gweithgarwch cymunedol sy'n hybu llesiant trigolion. Fel rhan o hyn hefyd, mae opsiynau yn cael eu trafod o ran treialu ffyrdd fyddai'n cynnig cyfleoedd i drigolion gael sgyrsiau ataliol eu natur mewn llefydd hwylus, gweledol a lleol. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd o ran sicrhau fod ein 'gwybodaeth', sydd wrth gwrs yn helpu pobl helpu eu hunain, yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cael ei gyflwyno yn y llefydd mwyaf priodol ac yn y modd mwyaf effeithiol.<br>• Penderfynwyd trefnu hyfforddiant i staff ar gyfer codi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr a phwysigrwydd rhoi cefnogaeth gynnar i ofalwyr fel modd o wneud gwaith ataliol yng nghyd-destun sefydlu'r gwasanaeth IAA. Hyn yn fodd o newid diwylliant y gweithlu wrth gwrdd â'u cyfrifoldeb newydd tuag at ofalwyr.<br>• Hefyd, mae angen codi ymwybyddiaeth o waith Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn ac adrodd i'r Tîm Rheoli Oedolion a Phlant yn achlysurol.<br>• Dal angen datblygu'r gwaith yn y maes hwn ond mae canllaw i gefnogi staff sy'n gofalu a chanllaw i helpu rheolwyr gefnogi'r aelodau staff hyn ar gael. Gofynnwyd i Adran Cefnogaeth Gorfforaethol eu gosod ar fewnrwyd y Cyngor<br>• Mae'r Swyddog Cefnogi Gofalwyr yn cydweithio efo Swyddog Ymgysylltu BIPBC am sut i rannu taflen gofalwyr drwy'r fferyllfeydd<br>• Mae rhai o feddygfeydd yng Ngwynedd wedi dechrau rhannu taflenni wrth roi presgripsiwn; mae'r gwaith hwn yn digwydd fel rhan o job Hwylusydd Meddygfeydd MT Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr. Mae'r daflen yn rhoi gwybodaeth am Gynnal Gofalwyr h.y. cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr yn y gymuned (sydd yn cyd-fynd gydag amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>• Mae gwaith arloesol gydag ysgolion a gofalwyr ifanc wedi dechrau dan ambarél yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, gyda chynllun peilot sy'n cynnwys ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Mae is-grŵp gofalwyr ifanc rhanbarthol yn trafod sut i adeiladu ar y gwaith hwn |

| | | |
|---|---|---|
| | | (mae Gwynedd yn aelod o'r is-grŵp) |
| ***5.*** | ***Ysbaid***<br>• ***Cynnal arolwg manwl i weld faint o ddiffyg cyfleoedd ysbaid sydd yn bodoli***<br>• ***Llunio polisi i gefnogi cyflogai'r Cyngor sy'n ofalwyr gyda chyfnodau ysbaid*** | Mae'r Cyngor wedi derbyn grant ysbaid ychwanegol ar gyfer gofalwyr am y flwyddyn 2017-18. O'i herwydd bydd cyfleodd a chefnogaeth i dderbyn egwyl o ofalu ar gyfer gofalwyr ifanc, rhieni gofalwyr a gofalwyr oedolion. Mae'r grant wedi cael eu rhannu rhwng gwasanaeth anabledd dysgu, Derwen, Gweithredu dros Blant (Prosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd), Age Cymru Gwynedd a Môn, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru Gofal Croesffyrdd.<br>O ran y maes anabledd corff a phobl hŷn:<br>• Mae'r gwasanaethau cefnogol i ofalwyr wedi bod yn draddodiadol iawn yn y gorffennol<br>• Mae gwlâu ysbaid wedi eu hadnabod yng nghartrefi preswyl y Cyngor ynghyd â gwlâu arbenigol dementia mewn rhai cartrefi sydd yn adnodd gwerthfawr iawn. Yn draddodiadol rydym wedi bod yn cynnig gwasanaeth eistedd a chyfleon gofal dydd i roi seibiant i ofalwyr<br>• Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw canolbwyntio ar y sgyrsiau cychwynnol pwysig gydag unigolion a'r rhai sydd yn gofalu amdanynt er mwyn dod i wir wraidd beth sy'n bwysig iddynt, a chydweithio gyda'r unigolion, gofalwyr a'u cymunedau i ddod o hyd i ddatrysiadau sydd yn cwrdd â'u hamcanion personol. Mae hyn yn rhoi rhyddid i fod yn fwy creadigol yn y modd gellir cefnogi unigolion a'u gofalwyr.<br>Mae gwasanaeth anableddau dysgu wedi sgopio anghenion ysbaid AD ac wedi penderfynu ar y camau canlynol:<br>• Creu uned gofal ysbaid newydd yn Tan y Marian<br>• Dad gomisiynu trefniadau gofal ysbaid presennol erbyn Mawrth 2018<br>• Bydd gan fframwaith newydd gofal |

| | | |
|---|---|---|
| | | ysbaid oedolion AD ddewislen o opsiynau o wasanaethau ar gyfer anghenion gwahanol ar gael ar draws y sir.<br>• Wedi cael adborth gan rieni gofalwyr eu bod yn hapus gyda datblygiad yr adnodd preswyl yn Hafod Lon, er nad yw wedi agor eto.<br>**Nodir bod diffyg o ddarpariaeth gofal, yn arbennig mewn rhai ardaloedd, yn achosi her wrth geisio darparu gofal ysbaid.**<br>Mae llunio polisi Cyngor Gwynedd i gefnogi cyflogai sy'n ofalwyr yn un o bwyntiau gweithredu ar gynllun gweithredu'r Strategaeth Gofalwyr Partneriaeth Gwynedd a Môn.<br>Gwnaethpwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd y swm o £114,000 yn cael ei gyfrannu i'r RSG yn barhaol. O sicrhau bod y swm yma yn cael ei warchod ar gyfer y maes gofalwyr, yn arbennig yr elfen ysbaid, byddwn yn ystyried sut i weinyddu a gweithredu'r gyllideb yma ar draws yr adran Oedolion a Phlant. |
| ***6.*** | ***Effaith Arbedion a Thoriadau - bod yr Aelod Cabinet yn cynnal asesiad manwl o effaith y lleihad mewn gwariant ar wasanaethau cefnogol i ofalwyr di-dâl/pobl sy'n edrych ar ôl rhywun.*** | Mae'r gwasanaethau AD (a amlinellir yn uchod dan 5) yn mynd i gynnig gwerth gorau.<br>O ganlyniad i'r toriad ariannol a wnaethpwyd i Wasanaeth Cynnal Gofalwyr, roedd rhaid ail-strwythuro'r mudiad i ymateb i'r toriad hwn. Effaith hyn yw bod mwy o ofalwyr yn gorfod disgwyl am rai o'u gwasanaethau megis galwadau cartref.<br>Mae hyn yn bryder iddynt gan fod gofyn i'w swyddogion bellach flaenoriaethu gofalwyr yn ôl anghenion (h.y. sefyllfaoedd mwyaf dyrys yn cael blaenoriaeth). Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau statudol a gwasanaethau eraill wedi torri cefnogaeth; gyda nifer o ofalwyr yn disgwyl am amseroedd annerbyniol i gael cyswllt a dim gwasanaethau ar gael mewn rhai ardaloedd wedi cyswllt. O ganlyniad, rydant yn ceisio ymateb i alw uwch am gefnogaeth gyda llai o adnoddau. Wrth ystyried fod Cyngor |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwynedd wedi torri arian ar adeg ble mae'r gofyn yn uwch nac erioed, teimlant fod y lleihad mewn gwariant yn mynd yn groes i'r ddeddf newydd yn ogystal ag anghenion gofalwyr.<br>Mae problem recriwtio gweithwyr gofal wedi gwaethygu yn yr amser ariannol anodd, gan gynnwys cynnydd yn nifer o staff dros dro. |
| ***7.*** | ***Trydydd Sector a Busnesau Cymunedol - cynllunio'r gwasanaethau craidd ac ataliol gyda'r Trydydd Sector a Busnesau Cymunedol.*** | Mae Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi arian craidd at y mudiadau canlynol: Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Age Cymru Gwynedd a Môn, Canolfan Lôn Abaty, Cymdeithas y Byddar, CAB, Tan y Maen, NWAA, Felin Fach, Gofal a Thrwsio. Mae gan y mudiadau hyn rôl ataliol.<br>Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio rhan sylweddol o grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal ysbaid i ofalwyr a gofalwyr ifanc gan gomisiynu'r trydydd sector.<br>Mewn gweithdy o bartneriaid rhanbarthol ddechrau mis Rhagfyr 2017, trafodwyd a chytunwyd bod angen cytundeb mwy manwl rhwng partneriaid ynglŷn â sut ddylai gwasanaethau yng Ngogledd Cymru edrych h.y. gwneud gwaith manylach ar y canlyniadau sydd eisoes wedi eu cytuno (ar gychwyn y gwaith rhanbarthol). |
| ***8.*** | ***Iechyd Meddwl - bod yr Aelod Cabinet yn cynnal arolwg brys i asesu'r sefyllfa lawn.*** | Daeth cytundeb gyda Hafal i ben ddiwedd mis Mawrth 2017. Ers 1af Ebrill mae dau weithiwr cefnogol (un sy'n seiliedig yn Hergest, Ysbyty Gwynedd ac un sy'n seiliedig ym Mlas Brith, Dolgellau). Bwriad yw gyrru holiadur at y gofalwyr am eu hadborth am y gwasanaeth mewnol newydd. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn gwneud yr asesiadau (sy'n cyd-fynd gyda gofynion y ddeddf newydd) ac mae wedi bod cynnydd sylweddol yn nifer o asesiadau a chwblhawyd ers mis Ebrill. Mae gweithwyr cefnogol yn darparu cefnogaeth un i un ac mae yno un grŵp gofalwyr yn Arfon.<br>Mae holiadur, a anfonir ym mis Ionawr 2018, yn gofyn am farn gofalwyr iechyd meddwl |

| | | |
|---|---|---|
| | | am y gwasanaeth presennol a beth sydd yn bwysig iddynt fel cefnogaeth yn eu rôl fel gofalwr.<br>Dylid gofalwyr o gleifion Hergest gael eu cefnogi gan Hafal (gwasanaeth a ariannir gan y bwrdd iechyd lleol). Rydym yn dallt nad yw neb mewn swydd ar y funud ond mae BIPBC yn chwilio i mewn i'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod rhywun yno i'r gofalwyr cyn gynted ag y bo modd.<br>Problem yw diffyg o adnoddau cefnogol ymarferol i ofalwyr h.y. cyfle iddynt gael saib. Nid ond diffyg o ddarpariaeth gofal ysbaid sydd yn ein rhwystro rhag darparu'r gefnogaeth hon ond hefyd agwedd y rhai sy'n derbyn y gofal h.y. eu bod yn gwrthod mynd i weithgareddau ayb. |
| ***9.*** | ***Iaith Gymraeg*** | Mae gan y Cyngor polisi iaith cryf ac rydym wedi ymrwymo â Mwy na Geiriau yn llwyr a'i weithredu yn ein gwaith gyda darparwyr. Yn anffodus, mae rhai o'n darparwyr yn cael trafferth recriwtio staff sy'n siarad yn Gymraeg, yn arbennig yn ne'r sir.<br>Un rheswm am ddarfod y cytundeb gyda Hafal oedd eu methiant cyson i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Bellach mae gwasanaeth cefnogol sydd ar gael i ofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

**Casgliad**

13. I gloi, rydym yn credu fod gwaith cadarnhaol wedi dechrau ar argymhellion yr ymchwiliad, ac mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er bod llawer o waith dal angen ei wneud.

14. Rydym yn ymwybodol nad oedd data Gwynedd yn yr ail bapur briffio Gofalwyr Cymru ar Tracio'r Ddeddf yn adlewyrchu'n ffafriol arnom fel awdurdod ond cododd Rhwydwaith Gwella a Dysgu Swyddogion Gofalwyr (COLIN - *Carers Officers Learning and Information Network*) bryderon am y papur briffio cyntaf ym mis Mawrth. Cydnabu Gofalwyr Gymru cywirdeb y pwyntiau ond yn methu gweithredu arnynt wrth ddanfon yr ail gais am wybodaeth. Mae aelodau'r COLIN wedi cael sicrwydd gan Gyfarwyddwr

newydd Gofalwyr Cymru y bydd yn cysylltu gyda'r COLIN er mwyn sicrhau eu derbyn sylwadau' awdurdodau lleoli i sicrhau eu bod yn cynhyrchu trydydd papur briffio sydd yn dra hyddysg ac yn gytbwys. Felly hoffwn ofyn i Aelodau wrth ddarllen y papur briffio i ystyried cydnabyddiaeth uchod gan Ofalwyr Cymru bod angen gwella'u methodoleg.

15. Rydym yn sylweddoli nad oes modd i ni gefnogi gofalwyr heb gefnogaeth a chydweithio gyda'n partneriaid yn Iechyd a'r Trydydd Sector. Dylai gwaith presennol a wneir gan y Rheolwr Busnes Rhanbarthol - Gofalwyr fydd o fudd mawr wrth gysoni gwasanaethau a chefnogaeth i ofalwyr dros y gogledd. Mae sawl prosiect moderneiddio ar y gweill, sy'n canolbwyntio ar gael canlyniadau cadarnhaol i ofalwyr a'r sawl yr ydynt yn eu cefnogi. Mae rhaid i ni barhau i wrando ar ofalwyr am beth sy'n bwysig iddynt ac wrth feddwl sut i ddarparu'r gefnogaeth am bwysigrwydd o gynnig gwasanaethau sy'n gynaliadwy a gwerth gorau mewn hinsawdd economeg anodd.

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Dyddiad | 30 Ionawr 2018 |
| Pwnc | **Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd** |
| Cyfeirnod Log Craffu | **G10** |

1 Cyfeiriwyd y cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd gan y Cyngor llawn ar 15 Mehefin 2017 i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu.

2 Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 19 Rhagfyr 2017 penderfynwyd blaenoriaethu'r ymchwiliad.

3 Amgeir y Brîff drafft ar gyfer yr Ymchwiliad.

**4 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal:**
**A) Cytuno ar y Brîff Terfynol i'r Ymchwiliad**
**B) Ethol 3-5 Aelod ar gyfer y Gweithgor**

| | |
|---|---|
| A | <u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu</u>?<br><br>Mae Gwasanaeth *Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial Gogledd Cymru – Artificial Limb and Appliance Service (*ALAC) yn wasanaeth sy'n cynnig cefnogaeth i bobl anabl i adsefydlu yn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac sy'n gweithio'n agos gydag is-gontractwyr a chyflenwyr er mwyn darparu datrysiadau addas i broblemau ac i uchafu potensial defnyddwyr.<br><br>Cafwyd cysylltiad gan rai aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl a Phencampwr Anabledd Cyngor Gwynedd i gwyno am rai agweddau o'r gwasanaeth.<br><br>Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynwyd bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu.Bydd yr ymchwiliad yma felly'n edrych ar y gwasanaeth cadeiriau olwyn yn unig ac nid y gwasanaeth yn ehangach. |
| B | <u>Nod yr Ymchwiliad</u><br><br>Y prif faterion dan ystyriaeth fydd<br><br>- Nifer a difrifoldeb y cwynion am y gwasanaeth cadeiriau olwyn a ddarperir trwy ALAC.<br>- Beth oedd cynnwys ac amserlen ymateb ALAC i'r cwynion?<br>- Faint o dystiolaeth sydd ar fodlonrwydd/anfodlonrwydd defnyddwyr gyda'r gwasanaeth? A oes themâu yn y dystiolaeth/wybodaeth yma?<br><br>- A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?<br>- Ydi'r broses yn 'fit for purpose'? |
| C | <u>Cyd-destun</u><br><br>- Ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 o safbwynt rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog yn y broses asesu a darparu cyfarpar addas.<br>- Ystyried gofynion o safbwynt Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a threfniadau caffael a chytundebu.<br>- Ystyried Astudiaethau Achos (y da a'r dim cystal) o Wynedd ac o ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru. |
| CH | <u>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu</u><br><br>- Ystyried sut mae gwasanaeth tebyg yn cael ei gynnal mewn ardaloedd eraill.<br>- Nodi rhwystrau ac arfer da |

| | |
|---|---|
| D | <u>Casglu Tystiolaeth</u><br><br>- <u>Cyngor Gwynedd</u><br>    o Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anabledd Corff<br>    o Ceryl Davies, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu<br>    o Arweinwyr Ardal<br>- <u>Bwrdd Iechyd</u><br>    o Nyrsys Meinwe<br>    o Arbenigwyr Meddygol<br><br>- Llywodraeth Cymru – Swyddog Cytundebu a Monitro<br><br>- ALAC Gogledd Cymru – Prif Swyddog<br>- ALAC Caerdydd – Prif Swyddog<br>- ALAC Abertawe – Prif Swyddog<br><br>- Trydydd Sector – holi Mantell Gwynedd am fudiadau perthnasol<br><br>- Defnyddwyr y Gwasanaeth – Bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data. |
| DD | <u>Dadansoddiad</u><br><br>- Pwyso a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd |
| E | <u>Llunio'r Adroddiad</u><br><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr<br>- Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy<br>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru<br>- Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad<br>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol |
| F | <u>Cynllun Gweithredu</u><br><br>- Llunio argymhellion i ystyriaeth y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a gofyn am ymateb i'r argymhellion |
| FF | <u>Tracio Cynnydd</u><br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad, os oes argymhellion y gellid diweddaru'r craffwyr arnynt, fe wneir hyn drwy adroddiad cynnydd anffurfiol. |
| G | <u>Amserlen</u> - Chwefror/Mawrth 2018 |

# Blaen-raglen Pwyllgorau Craffu 2017-2018

*Diweddariad: Ionawr 2018*

| **Pwyllgor Craffu Gofal** | |
|---|---|
| **Ymchwiliadau** | |
| **Gweithgorau** | |
| **21 Medi 2017** | ▪ Digartrefedd<br>▪ Tai Gwag<br>▪ Darpariaeth Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog |
| **14 Tachwedd 2017** | **WEDI'I GANSLO** |
| **30 Ionawr 2018** | ▪ Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog – Adroddiad cynnydd ar gyflawni'r Argymhellion<br>▪ Pobl sy'n edrych ar ôl rhywun (Gofalwr di-dâl))<br>▪ Cartrefi Cymunedol Gwynedd<br>▪ Cynllun Alltwen<br>▪ Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd |
| **8 Mawrth 2018** | |